## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae gan bob babi a phlentyn bach, waeth beth fo'u cefndir, hawl i dyfu i fyny mewn amgylchedd hapus, iach a diogel. Dylent gael pob cyfle i wireddu eu potensial yn llawn.

Yng Nghymru, rydym am wella partneriaethau, integreiddio a chysondeb yn ein dull o ymdrin â phob darparwr Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar fel y gall pob babi a phlentyn bach, hyd at 5 oed, gael budd o ddarpariaeth dysgu a gofal o ansawdd da yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

**Ein hegwyddorion**

Mae tair thema i'n dull gweithredu ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar:

- Mynediad at ddarpariaeth sy'n cefnogi'r plentyn a'i ddatblygiad.
- Profiadau dysgu a gofal o ansawdd da sy'n ysgogol ac sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad plant.
- Cefnogi a datblygu'r gweithlu.

**Cynllun ac Adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.**

Rydym wedi datblygu Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar sy'n nodi ein dull gweithredu ar gyfer Cymru ac Adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar sy'n nodi sut beth yw darpariaeth o safon yn ymarferol.

**Ffyniant i bawb**

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cyd-fynd â'r ymrwymiad ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015:**

Mae'r dull gweithredu ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cyfrannu at y saith nod llesiant a'i nod yw gwneud ymyriadau nawr, er mwyn bod o fudd i bobl yng Nghymru yn y dyfodol.

***Cymru lewyrchus***

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol anghenion cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol babanod a phlant bach er mwyn cefnogi eu llesiant a'u dysgu gydol oes. Rydym yn parhau i gefnogi ein gweithlu presennol, ac rydym hefyd yn awyddus i ddatblygu gweithlu

mwy cydnerth, cynaliadwy ac amrywiol, gyda ffocws ar dyfu proffesiynau gofal plant, gwaith chwarae ac addysgu.

Mae lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae yn rhan bwysig o'r gwaith o gefnogi rhieni/gofalwyr er mwyn iddynt allu gweithio neu gamu ymlaen ymhellach yn eu gyrfaoedd os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae mynediad at ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau.

***Cymru gydnerth***

Drwy gefnogi datblygiad cyfannol babanod a phlant bach, byddwn yn eu galluogi i fod yn fwy annibynnol ac yn fwy parod ar gyfer heriau yn nes ymlaen mewn bywyd.

***Cymru iachach***

Mae blynyddoedd cynnar plentyn yn gyfnod o ddatblygiad gwybyddol, ieithyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol cyflym. Mae'n gyfnod pan gaiff sylfeini eu gosod ar gyfer dysgu gydol oes, a gall Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o safon gael effaith sylweddol.

Gall cymorth gan oedolion sy'n galluogi dysgu sy'n cynnig cyfleoedd diddorol ac amgylcheddau effeithiol helpu plant i ffynnu a gwella eu llesiant. Bydd babanod a phlant bach yn dysgu drwy chwarae a gall Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer chwarae rhydd a strwythuredig.

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â rhieni/gofalwyr, ac yn adeiladu ar hynny, er mwyn helpu pob babi a phlentyn bach i deimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u meithrin, a'u bod yn cael gofal.

***Cymru sy'n fwy cyfartal***

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn allweddol er mwyn creu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir. Mae gan Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gyfraniad sylweddol i'w wneud i liniaru effaith anghydraddoldebau, megis hiliaeth, tlodi, ableddiaeth, adfyd a ffactorau cymdeithasol eraill gan gynnwys diffyg cyfleoedd, y gall pob un ohonynt gael effeithiau parhaus ar fywydau unigolion.  Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu a thyfu gweithlu amrywiol a chynhwysol.

***Cymru o gymunedau cydlynus***

Bydd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn helpu plant i gymryd rhan yn effeithiol yn eu cymunedau, gan helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn a llesiant.  Bydd polisi Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar hefyd yn atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng lleoliadau gofal plant a chwarae, ysgolion, a chymunedau. Rydym yn ymrwymedig i ymgorffori gwrth-hiliaeth ym mhopeth a wnawn, a sicrhau bod pob

aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddiwylliannau, gwerthoedd, crefyddau a chredoau gwahanol, a'r anghenion a'r rhwystrau a wynebir gan gymunedau gwahanol yng Nghymru.

***Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu***

Bydd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar cyfrwng Cymraeg o ansawdd da yn rhoi mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu, dysgu, cymdeithasu a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cyfrannu at ein *targedau Cymraeg 2050*.

Mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio yn y Cwricwlwm i Gymru gan sicrhau y bydd plant o deuluoedd cyfrwng Saesneg neu gyfrwng Cymraeg, neu blant y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn cael cyfleoedd i wneud cynnydd.

***Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang***

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn rhoi cyfleoedd i wreiddio ymwybyddiaeth gadarnhaol o ddiwylliant Cymru a diwylliannau eraill yn ogystal ag agweddau ac ymddygiadau cynaliadwy a chyfrifol, yn enwedig drwy'r Cwricwlwm i Gymru. Wrth iddynt dyfu, bydd plant yn dechrau meithrin ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth. Gall ymdeimlad o gynefin arwain at deimladau cadarnhaol o gyswllt â'r cartref a'r lleoliad ac wrth i'r plant ddod yn hŷn, gall hyn ehangu i'r gymuned, Cymru a'r byd ehangach. Gall lleoliadau sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu profiadau bywyd plant, ac sy'n adeiladu ar y profiadau hynny, atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn.

**Yn y tymor hir**

Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd arloesol, gan barhau â'n taith i sicrhau mwy o gydlyniant ar draws y tirlun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru. Mae cyd-fynd ag ethos y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig addysgeg addysg gynnar a Dechrau'n Deg ynghyd â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, yn gyfleoedd allweddol i roi sylfaen gadarn i'n dyheadau.

**Atal**

Gall Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar adeiladu ar y fagwraeth a'r dysgu y mae rhieni/gofalwyr yn eu darparu gartref a helpu fel mesur ataliol ar gyfer rhai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae gan bobl sy'n gweithio yn y sectorau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar rôl i'w chyflawni mewn camau gweithredu ataliol drwy gefnogi plant a'u rhieni. Gall cymorth gan oedolion sy'n galluogi dysgu sy'n cynnig cyfleoedd diddorol ac amgylcheddau effeithiol helpu plant i ffynnu a gwella eu llesiant.

**Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys**

Mae ymgysylltu a chydweithio'n dal i fynd rhagddynt gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn gallu archwilio'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan ddull gweithredu sy'n datblygu ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Bydd y

trafodaethau hyn yn parhau i helpu i lywio polisi Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r sectorau addysg, gofal plant a gwaith chwarae er mwyn sicrhau y cânt eu cynnwys mewn unrhyw ddatblygiadau. Mae'r holl ddogfennau ategol sydd wedi'u llunio hyd yma wedi cael eu cydgynhyrchu gydag ymarferwyr sy'n cynrychioli'r sector.

**Effaith**

Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar yn gadarn. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod darpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd da yn fuddiol i bob plentyn ac yn arbennig o fuddiol i'r rhai sydd o gefndiroedd mwy amddifad. Mae gwaith ymchwil[1] wedi dod i'r casgliad bod darpariaeth gyfyngedig, hyd yn oed, o Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd da yn fuddiol i ddatblygiad plentyn, yn enwedig ar gyfer plant o gefndiroedd dan anfantais[2].

Caiff y sylfeini ar gyfer dysgu gydol oes, ymddygiad a llesiant eu meithrin yn ystod y cyfnod hwn gyda phrofiadau da yn ystod plentyndod cynnar yn cefnogi datblygiad, llesiant, integreiddio cymdeithasol, cyflawniad academaidd a chyflogadwyedd yn nes ymlaen mewn bywyd.

---

[1] OECD, Study to Explore Early Development (SEED)

[2] Melhuish, E., Gardiner, S., (2021) Study of Early Education and Development (SEED): Impact Study on Early Education Use and Child Outcomes up to age seven years, Adran Addysg, Llywodraeth y DU, ar gael yn Early education use and child outcomes up to age 7 - GOV.UK (www.gov.uk)

## ADRAN 8. CASGLIAD

**Sut mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

Bydd rhoi Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar waith yng Nghymru yn cael effaith ar blant hyd at 5 oed, rhieni/gofalwyr a phobl sy'n gweithio mewn gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin.

**Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**

Cafodd Grŵp Rhanddeiliaid Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ei sefydlu ym mis Ionawr 2023, a'i rôl oedd dod â rhanddeiliaid allweddol sydd ag arbenigedd ym maes Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ynghyd er mwyn helpu i ddatblygu Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar y cyd.

**Adnodd gweledol Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**

Mae adnodd gweledol sy'n esbonio beth yw Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru wedi cael ei ddatblygu a'i brofi gyda rhanddeiliaid.

**Adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i ymarferwyr**

Fel rhan o'n dull gweithredu ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, rydym wedi datblygu tair dogfen er mwyn helpu ymarferwyr i ddarparu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o safon, sef:

- Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru.
- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol
- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0-3

Mae'r dogfennau hyn wedi cael eu datblygu ar y cyd gan ymarferwyr, ar gyfer ymarferwyr, i bob lleoliad gofal plant a chwarae ac ysgol yng Nghymru eu mabwysiadu, os byddant yn dymuno gwneud hynny, ac yn eu cyfanrwydd, i gefnogi darpariaeth o ansawdd i bob babi a phlentyn bach yng Nghymru.

Bydd y dogfennau hyn ar ffurf drafft am flwyddyn er mwyn cael cyfle i ymgysylltu a chasglu adborth ar y ffordd y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol a'r meysydd a nodir ar gyfer newidiadau pellach gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau ategol. Effaith gadarnhaol debygol y dogfennau hyn, os cânt eu mabwysiadu, yw dealltwriaeth fanylach o ddatblygiad plant ac ymarfer myfyriol cyson.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo, nawr ac yn y dyfodol. Mae gan blant hawl i dyfu i fyny mewn amgylchedd hapus, iach a diogel. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn gyfle i atgyfnerthu hawliau plant. Un rhan bwysig o sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd yw galluogi pob babi a phlentyn bach i gael budd o ddarpariaeth gofal plant ac addysg feithrin hyblyg a hygyrch o ansawdd da yn Gymraeg a/neu yn Saesneg.  Mae gofal plant ac addysg feithrin yn cefnogi llesiant plentyn ac yn cynnig cyfleoedd i chwarae, dysgu a datblygu.

Yr effeithiau mwyaf sylweddol ar y Gymraeg a phobl, diwylliant, economi ac amgylchedd Cymru a ddisgwylir o ganlyniad i'r camau gweithredu arfaethedig yw:

Pobl:

- Babanod a phlant bach sy'n fwy cydnerth, annibynnol a pharod ar gyfer heriau yn nes ymlaen mewn bywyd.
- Babanod a phlant bach sy'n cael eu helpu i chwarae, dysgu a datblygu ac sy'n gwireddu eu potensial yn llawn mewn amgylcheddau dysgu diogel, gofalgar a meithringar wedi'u cefnogi gan ymarferydd sy'n deall egwyddorion allweddol ansawdd a datblygiad plant.
- Helpu pob lleoliad ac ysgol i ganolbwyntio ar y plentyn a datblygiad plant a darpariaeth o ansawdd da.
- Lliniaru effaith anghydraddoldebau.
- Cymunedau ffyniannus a chysylltiedig sydd wedi'u grymuso lle mae babanod a phlant bach yn teimlo’n hapus, yn ddiogel ac yn cymryd rhan yn effeithiol ac wedi meithrin ymdeimlad o berthyn a llesiant.
- Helpu'r rhai sy'n gweithio yn y sector i ffynnu yn eu gwaith.
- Helpu rhieni/gofalwyr i weithio a chamu ymlaen ymhellach yn eu gyrfaoedd.
- Gweithlu gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin amrywiol sy'n ffynnu, yn cael ei werthfawrogi, ac yn cael ei barchu gan bawb, ac sy'n ymrwymedig i gynnig darpariaeth o ansawdd da. Ymarferwyr uchel eu parch yn y sectorau addysg, gofal plant a gwaith chwarae sydd â rolau yr un mor bwysig yn y gwaith o gefnogi llesiant a datblygiad babanod a phlant bach a gosod y sylfeini a fydd yn eu galluogi i ddysgu.
- Gwell gweithio mewn partneriaeth lle mae cydweithwyr ym maes Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydweithio, yn cyfathrebu'n agored, ac yn cynllunio ar y cyd â'i gilydd, gan gefnogi darpariaeth chwarae, dysgu, gofal a datblygiad plentyn a lle y caiff cyfraniadau pawb yn cael eu gwerthfawrogi cymaint ac mor werthfawr â'i gilydd.

Diwylliant a'r Gymraeg

- Mwy o gyfleoedd i fabanod a phlant bach ddatblygu, cymdeithasu a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg, gan hyrwyddo ethos Cymraeg cadarn.
- Ymwybyddiaeth gadarnhaol o ddiwylliant Cymru a diwylliannau eraill a dathlu amrywiaeth wedi'i gwreiddio.
- Cysoni Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ag egwyddorion Dechrau'n Deg, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig yng Nghymru, y Safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgolion ac Egwyddorion Gwaith Chwarae, a'r Cwricwlwm i Gymru.

Yr economi

- Mae'n bosibl y gall rhieni/gofalwyr oresgyn un o'r prif rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio neu gamu ymlaen ymhellach yn eu gyrfaoedd.
- Gyda darpariaeth hygyrch, mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn twf economaidd, a fydd felly'n helpu Llywodraeth Cymru i drechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau.
- Mae tystiolaeth yn dangos y gall buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar leihau'r angen am ymyriadau yn nes ymlaen mewn bywyd er mwyn cefnogi cyrhaeddiad addysgol, iechyd a llesiant.
- Ceir tystiolaeth glir o wahaniaethau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol – erbyn iddynt gyrraedd 3 oed, gall plant o gefndiroedd tlotach fod cymaint â blwyddyn ar ei hôl hi o gymharu â'u cyfoedion. Gall buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar gael effaith gadarnhaol sylweddol ar alluogi plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd a gwireddu eu potensial yn llawn.

Yr amgylchedd

- Annog babanod a phlant bach i ddatblygu eu hannibyniaeth a darganfod y byd o'u cwmpas, gan gynnwys yr amgylchedd y maent yn byw ynddo.
- Cyfleoedd i fod yn egnïol a chwarae, gan archwilio'r awyr agored a dysgu sut i fod yn rhan o'u cymunedau.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r dull gweithredu ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn seiliedig ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn gallu gwireddu ei botensial yn llawn.

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â rhieni a rhoddwyr gofal eraill ac yn adeiladu ar hynny, er mwyn helpu pob babi a phlentyn bach i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac i deimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u meithrin, a'u bod yn cael gofal. Mae cefnogi teuluoedd i sicrhau bod babanod a phlant bach yn cael profiadau da yn y cartref yn bwysig.

Gwyddom o waith ymchwil y gall buddsoddi mewn Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd uchel gael effaith gadarnhaol ar faeth plant[3], gweithgarwch corfforol[4] a llesiant[5].

Mae mynediad at ddarpariaeth hyblyg a hygyrch yn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau.

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydnabod bod y sectorau gofal plant ac addysg gynnar yn rhannau allweddol o'r economi sylfaenol, gan gynnal cyflogaeth a gwella cadernid at y dyfodol. Mae ysgolion a lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae yn rhan bwysig o'r gwaith o helpu rhieni/gofalwyr i oresgyn un o'r prif rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio neu gamu ymlaen ymhellach yn eu gyrfaoedd.

Mae polisi Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydnabod bod problemau recriwtio a chadw staff yn y sector gofal plant, gwaith chwarae ac addysg ar hyn o bryd, a'i nod yw lliniaru'r problemau hyn drwy barhau i gefnogi'r staff presennol er mwyn iddynt aros a datblygu eu gyrfaoedd yn y sectorau hyn. Rydym hefyd yn ymrwymedig i ddatblygu gweithlu gwydn, cynaliadwy ac amrywiol ymhellach, gan ganolbwyntio ar ddatblygu'r proffesiynau a gwneud gofal plant, gwaith chwarae ac addysgu yn ddewis broffesiynau. Mae'r uchelgais i ddatblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus mewn sector y mae pobl yn dewis dilyn gyrfa ynddo wedi'i nodi yng nghynllun 10 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar. Mae'r cynllun, y caiff diweddariad iddo ei gyhoeddi yn 2024,

---

[3] Marr C, Breeze P, Caton SJ. Examination of dietary intake of UK preschool children by varying carers: evidence from the 2008–2016 UK National Diet and Nutrition Survey. British Journal of Nutrition. 2022;128(10):2063-2074. doi:10.1017/S0007114521004712

[4] Stacey, F.G., Finch, M., Wolfenden, L. et al. Evidence of the Potential Effectiveness of Centre-Based Childcare Policies and Practices on Child Diet and Physical Activity: Consolidating Evidence from Systematic Reviews of Intervention Trials and Observational Studies. Curr Nutr Rep 6, 228–246 (2017). https://doi.org/10.1007/s13668-017-0212-z

[5] Ole Johan Sando (2019) The physical indoor environment in ECEC settings: children's well-being and physical activity, European Early Childhood Education Research Journal, 27:4, 506-519, DOI: 10.1080/1350293X.2019.1634238

yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi recriwtio a chadw, datblygu sgiliau, a chymorth i feithrin gallu a galluogrwydd.

Ar 30 Mehefin 2023, fel rhan o'n dull gweithredu ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i blant hyd at 5 oed yng Nghymru, cafodd nifer o ddogfennau eu cyhoeddi er mwyn helpu ymarferwyr i gynnig darpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd.

Dylai'r dogfennau hyn, sydd wedi cael eu datblygu ar y cyd gan ymarferwyr, ar gyfer ymarferwyr, i bob lleoliad gofal plant a chwarae ac ysgol yng Nghymru eu mabwysiadu, os byddant yn dymuno gwneud hynny sicrhau y bydd ymarferwyr yn cynnig dulliau gweithredu llwyddiannus sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth gadarn ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a'u helpu i fynd ati i fyfyrio ar eu hymarfer a'i wella'n barhaus er mwyn helpu pob babi a phlentyn bach i ddysgu a datblygu yn well.

**Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

**Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**

Bydd y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ddogfen fyw a gaiff ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd yn hyblyg er mwyn addasu i newidiadau wrth i bolisïau ddatblygu.

Mae'r Cynllun yn nodi sut yr eir ati i fonitro cynnydd o ran rhoi'r rhaglenni ar waith a'u heffeithiolrwydd yn ystod tymor y Senedd hon.

Ni allwn gyflawni ein huchelgais ar ein pen ein hunain. Bydd angen i bawb sy'n gweithio yn y sectorau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gyflawni rôl sylweddol a gweithredu ar y cyd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid er mwyn bwrw ymlaen â pholisi Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ac rydym yn croesawu unrhyw adborth ar ein dull gweithredu yng Nghymru.

**Adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**

Mae'r adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar wedi cael eu cyhoeddi ar ffurf drafft am flwyddyn. Bydd hyn yn golygu y bydd modd ymgysylltu a chasglu adborth gan y sectorau ar y ffordd y cânt eu defnyddio'n ymarferol, a gwerthuso eu heffeithiolrwydd yn barhaus. Bydd arolwg a rhai trafodaethau grŵp â ffocws pendant yn fodd i gasglu rhagor o adborth a llywio datblygiad yr adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar terfynol er mwyn iddynt gael eu cyhoeddi yn ystod haf 2024.

**Polisi Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**

Fel gyda phob maes polisi, byddwn yn casglu data ac yn gwneud gwaith ymchwil er mwyn monitro a yw'r rhaglenni sy'n gysylltiedig â Chwarae, Dysgu a Gofal

Plentyndod Cynnar yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, ac a ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar bobl yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, a bydd hynny'n helpu i sicrhau y caiff dull gweithredu llwyddiannus ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ei ddatblygu a'i roi ar waith. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector addysg, gofal plant a gwaith chwarae (gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau ambarél, ymarferwyr, awdurdodau lleol, teuluoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill) er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau ac yn cael eu cynnwys ynddynt.

## FULL IMPACT ASSESSMENTS

### ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru


Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r dull y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio er mwyn helpu Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn ystyried hawliau plant mewn ffordd gytbwys wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor i Weinidogion a rhaid iddo gael ei gwblhau cyn i benderfyniad y Gweinidogion gael ei wneud. Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

---

*Noder bod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant sefydledig sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Arsyllfa Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc Cymru, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft. Cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru* am ragor o wybodaeth.

---



*I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, darllenwch y Llawlyfr Hawliau Plant i Staff neu cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@gov.wales*

**Amcanion polisi**

- Pa benderfyniad rydych yn cynnal asesiad o'i effaith?

Rydym am i Gymru fod yn lle gwych i bob baban, plentyn bach, eu teuluoedd a'u cymunedau ffynnu ynddo. Mae gan blant hawliau cyfreithiol sylfaenol i dyfu i fyny mewn amgylchedd hapus, iach a diogel, fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Ein blaenoriaethau:

- cynnig cyfleoedd i fabanod a phlant bach gael hwyl a mwynhau
- galluogi babanod a phlant bach i ddysgu, datblygu a chwarae
- parchu hawliau babanod a phlant bach
- galluogi babanod a phlant bach i feithrin cydberthnasau cryf a hapus ag oedolion a phlant
- gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol lle mae pawb yn ffynnu ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ni waeth beth fo'u cefndir
- sicrhau bod gennym weithlu gofal plant, chwarae ac addysg feithrin cynaliadwy, ffyniannus ac amrywiol er mwyn cefnogi babanod a phlant bach,
- helpu teuluoedd i allu gweithio
- helpu'r economi i dyfu drwy ddarparu gofal plant cynaliadwy.

Rydym yn cydnabod bod holl erthyglau CCUHP yn rhyngddibynnol a'u bod yr un mor werthfawr â'i gilydd. Mae rhai erthyglau'n ymwneud yn benodol â'r blaenoriaethau hyn:

- **Erthygl 2 – Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.**

Yn 2019, lansiodd y Prif Weinidog ein dull gweithredu ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar. Mae nod craidd y dull gweithredu ar gyfer chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar (a elwir yn ffurfiol yn ddull gweithredu ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar) yn seiliedig ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod

pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn gallu gwireddu ei botensial yn llawn. Yng Nghymru, rydym am wella partneriaeth, integreiddio a chysondeb yn ein dull o ymdrin â phob darparwr Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar fel y gall pob babi a phlentyn bach, hyd at 5 oed, gael budd o ddarpariaeth dysgu a gofal o ansawdd da yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Bydd y math o leoliad y byddant yn ei fynychu yn amherthnasol os cânt eu cefnogi a'u meithrin yn unol â'u hanghenion.  Os caiff ei wireddu'n llawn, byddai'r dull gweithredu hwn yn arwain at ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar fwy cynhwysfawr ac integredig.

Yn 2021, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru'r Rhaglen Lywodraethu. Roedd yn cynnwys sawl ymrwymiad sy'n ymwneud â phlant. Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc, a lansiwyd yn 2022, yn dangos yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau hyn ar gyfer plant. Mae'r Cynllun yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc:

- yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- yn cael eu trin yn deg.
- yn cael eu cefnogi ar eu taith drwy addysg a hyfforddiant a thu hwnt.
- yn cael eu cefnogi i deimlo'n gryf yn feddyliol ac yn emosiynol.
- yn cael eu cefnogi i gael cyfle teg mewn bywyd.
- yn byw mewn cartref da a diogel.
- yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros gyda'i gilydd neu ailymuno â'u teulu, lle y bo'n bosibl.

Mae'r Cynllun yn bwysig am fod Gweinidogion Cymru am sicrhau'r gorau i blant yng Nghymru ni waeth beth fo'u cefndir, o ble y maent yn dod, na ble y maent yn byw. Mae hyn yn golygu gwneud Cymru'n lle hapus, iach a diogel i dyfu i fyny, byw a gweithio ynddo, nawr ac yn y dyfodol; rhywle lle mae plant yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn gweld eu gwerth.

Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn cydnabod y ffordd mae cynlluniau Llywodraeth Cymru yn effeithio ar blant a'u hawliau. Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau ynglŷn ag addysg, diogelu, a'r ffordd mae Llywodraeth Cymru yn gwrando ar blant. Mae hyn yn golygu un weledigaeth glir ar gyfer yr hyn y bydd y penderfynwyr ar y lefelau uchaf o fewn Llywodraeth Cymru yn ei wneud er mwyn sicrhau y caiff hawliau plant eu cydnabod a'u parchu.

Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom gyhoeddi Cenhadaeth Ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb sy'n nodi'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer addysg yng Nghymru ynghyd â chwe amcan:

- Dysgu am oes
- Chwalu rhwystrau fel y gellir cynnig cyfleoedd addysg rhagorol i bawb
- Profiad addysg cadarnhaol i bawb, gyda llesiant a gwydnwch dysgwyr yn cael eu cefnogi
- Addysg ac arweinyddiaeth o ansawdd da er mwyn cefnogi dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol
- Dysgu yn y gymuned
- Sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad cyfartal at y Gymraeg
- **Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn**

Mae gan bawb sy'n gweithio gyda babanod a phlant bach yng Nghymru rôl bwysig i'w chwarae er mwyn eu helpu i fod yn nhw eu hunain, chwarae, dysgu a thyfu.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn annog gweithlu a gaiff ei werthfawrogi’n gyfartal a'i barchu gan bawb yn y sectorau gofal plant, gwaith chwarae ac addysg.

Rydym am gael gweithlu sydd â'r sgiliau a'r ymddygiadau sy'n angenrheidiol er mwyn cynnig cyfleoedd chwarae, dysgu a gofal i fabanod a phlant bach, lle y caiff y gweithlu ei helpu i ennill y cymwysterau angenrheidiol a chwblhau hyfforddiant er mwyn meithrin sgiliau a gwybodaeth yn barhaus.

Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein polisïau, o Dechrau'n Deg i'r Cwricwlwm i Gymru, gyda'r pwyslais ar oedolion sy'n galluogi dysgu.

- **Erthygl 5 – Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i wneud penderfyniadau er budd pennaf eu plant, os na allant wneud hynny eu hunain ac Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu’n iach.**

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn seiliedig ar adeiladu ar y gofal a roddir gan rieni a gofalwyr a hawl plentyn i dyfu, dysgu a chwarae mewn amgylchedd hapus, iach a diogel. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydnabod pwysigrwydd gweithio ochr yn ochr â rhieni a

rhoddwyr gofal eraill er mwyn helpu pob babi a phlentyn bach i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac i deimlo eu bod yn cael eu grymuso a'u meithrin, a'u bod yn cael gofal. Ceir llawer o adnoddau a rhaglenni sydd eisoes yn bodoli i ategu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a chefnogi'r uchelgais i fabanod a phlant bach gael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys: rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf, Rhaglen Plant Iach Cymru a Magu Plant. Rhowch Amser Iddo. Mae'r adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir ac nas cynhelir a'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn esbonio pwysigrwydd oedolion sy'n galluogi dysgu.

- **Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i roi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried**

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydnabod y gall plentyndod fod yn gyfnod cyffrous i fabanod a phlant bach. Gall fod yn amser i gael hwyl, archwilio, darganfod a bod yn chwilfrydig. Mae pob babi a phlentyn bach yn unigryw, a bydd babanod a phlant bach yn darganfod pethau newydd, yn chwarae, ac yn cael hwyl yn eu ffordd naturiol eu hunain ac yn eu hamser eu hunain. Dylai oedolion sy'n galluogi dysgu roi o'u hamser i ddod i adnabod babanod a phlant bach unigol. Drwy wneud hynny, gall oedolion sy'n galluogi dysgu sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd diddorol sy'n diwallu anghenion unigol babanod a phlant bach ac yn bodloni eu diddordebau. Dylai pob un ohonom weithio mewn partneriaeth ag eraill i feithrin, ysbrydoli a herio pob plentyn, gan eu cefnogi i ddatblygu'n gymdeithasol, yn emosiynol, yn gorfforol ac yn wybyddol. Mae Cymru'n dadlau o blaid pwysigrwydd chwarae a datblygu cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan gefnogi datblygiad cyfannol plentyn.

- **Erthygl 19 – Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl.**

Ers datganoli, mae Cymru wedi ymrwymo i'r blynyddoedd cynnar, gan gefnogi plant a'u teuluoedd drwy sicrhau eu bod yn cael y cymorth a'r dechrau gorau posibl mewn bywyd. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant, gan ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith, hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a datblygu cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y plentyn, a chefnogi datblygiad cyfannol plentyn. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn atgyfnerthu'r ffaith bod gan blant hawl gyfreithiol sylfaenol i dyfu i fyny mewn amgylchedd hapus, iach a diogel, ac nad rhywbeth dewisol yw hawliau plant yng Nghymru. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi ein polisïau a'n huchelgeisiau ehangach ar gyfer y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae gan y sectorau gofal plant, chwarae ac addysg feithrin rôl ataliol i'w chwarae drwy eu cydberthnasau â rhieni, er mwyn helpu rhieni i ddeall datblygiad

plant a sgiliau rhianta a gwella eu gwybodaeth amdanynt, helpu i gryfhau cydberthnasau rhwng rhieni a'u plant, a chyfeirio rhieni at wasanaethau eraill. At hynny, pan fydd y rhai sy'n gweithio yn y sectorau hyn yn nodi pryderon am les plentyn, bydd ganddynt gyfrifoldeb i'w ddiogelu.

Ers 2022, o dan Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, cafodd pob math o gosb gorfforol, fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd, ei wneud yn anghyfreithlon, gan roi'r un amddiffyniad i blant rhag ymosodiadau ag oedolion.

- **Erthygl 24 – Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn**

Ategir Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir yng Nghymru a'r canllawiau statudol ar fwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu. Mae Erthygl 12 yn dweud y bydd plant yn cael diodydd a bwyd yn rheolaidd, a digon ohonynt i ddiwallu eu hanghenion. Os bydd plant yn cael prydau bwyd a/neu fyrbrydau, byddant yn cael eu paratoi'n ddiogel, byddant yn gytbwys o ran maeth, byddant o ansawdd da a bydd faint ohonynt a roddir yn briodol gan ddilyn argymhellion yng nghanllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. Bydd y bwyd a diod a gaiff eu cynnig yn amrywiol ac yn faethlon ac yn bodloni gofynion crefyddol, diwylliannol, synhwyraidd a deietgol pob un o'r plant. Bydd dŵr yfed ffres ar gael am ddim i'r plant bob amser.

Mae'r canllawiau statudol ar fwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin ac unedau cyfeirio disgyblion) ar gydymffurfio â darpariaethau Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a'r rheoliadau a wneir oddi tano. Mae Adran 4 yn esbonio'r gofynion ar gyfer bwyd a diod a ddarperir ar safleoedd ysgolion ac mae Adran 5 yn sicrhau bod dŵr yfed ar gael, am ddim, ar safle unrhyw ysgol a gynhelir. Hefyd, ym mis Medi 2022, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Plaid Cymru, dechreuodd Llywodraeth Cymru gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd.

- **Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill, a'r amgylchedd.**

Yn y pen draw, mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar y plentyn a'i anghenion. Dylai babanod a phlant bach allu dysgu a datblygu drwy chwarae, archwilio, a defnyddio eu chwilfrydedd a'u dychymyg. Rydym am gael darpariaeth o ansawdd da er mwyn annog babanod a phlant bach i gymryd rhan, croesawu cynwysoldeb ac amrywiaeth, a chynnig cyfleoedd i archwilio a dysgu am brofiadau a diwylliannau eraill gan wybod mai peth da yw bod yn wahanol. Mae ein

gweledigaeth ar gyfer Cymru yn seiliedig ar brofiadau chwarae, dysgu a gofal o ansawdd da, yn ddwyieithog ac yn amlieithog.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod anghenion plant wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n amlwg o'r dechrau'n deg y dylai cwricwla ysgolion: 'adnabod anghenion dysgu unigol a chefndir yr holl ddysgwyr' a bod y Cwricwlwm 'hefyd yn gyfrwng pwysig i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ym mhrofiad dysgu ein plant a'n pobl ifanc'.

Diben cwricwlwm pob ysgol a lleoliad yw helpu ein plant a'n pobl ifanc i ddod:

- yn unigolion uchelgeisiol a galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach a hyderus sy'n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Yn benodol, mae'r pedwar diben yn cydnabod rôl hawliau plant – bydd pob plentyn a pherson ifanc yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus: sy'n parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelodau o gymdeithas amrywiol; ac sy'n deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd.

Mae'r canllawiau cyffredinol[6] sydd eisoes yn bodoli yn rhoi arweiniad i ysgolion ar y canlynol:

- Dysgu am hawliau dynol: deall hawliau dynol, a ffynonellau'r hawliau hynny gan gynnwys CCUHP
- Dysgu drwy hawliau dynol: datblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n adlewyrchu gwerthoedd hawliau dynol
- Dysgu ar gyfer hawliau dynol: y cymhelliant sy'n gysylltiedig â gweithredu cymdeithasol a'r grymuso sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth weithgar er mwyn datblygu parch at hawliau pawb.

Hefyd, cafodd canllawiau i blant a phobl ifanc eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r canllawiau ar y Cwricwlwm i Gymru, sy'n helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd i ddeall sut mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru'n gweithio a'r hyn a oedd yn newid.

---

[6] Mae Erthygl 2 o Ddatganiad y Cenhedloedd Unedig ar Addysg a Hyfforddiant Hawliau Dynol yn nodi tair prif elfen addysg hawliau dynol

Mae hawliau plant yn nodwedd ym Meysydd Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a'r Dyniaethau. Mae hawliau wedi'u cynnwys yn y datganiadau gorfodol o'r hyn sy'n bwysig. Mae hawliau hefyd wedi'u cynnwys yn y canllawiau yn y disgrifiadau dysgu.

- **Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau**

Mae'r rhan fwyaf o fabanod a phlant bach yn chwilfrydig ac mae ganddynt angen cynhenid i chwarae. Rydym yn mynd ati mewn ffordd gynhwysol i helpu pawb i ffynnu a bod yn nhw eu hunain. Mae angen i bob plentyn gael profiadau diddorol sy'n seiliedig ar gyd-destunau go iawn sy'n adlewyrchu ei ddiddordebau ac sy'n ennyn ei chwilfrydedd a'i awydd i ddysgu. Mae profiadau diddorol yn annog plant i chwarae, yn magu eu hyder ac yn datblygu eu hannibyniaeth wrth ryngweithio'n gymdeithasol ac ymdeimlad cryf o lesiant. Dylai'r profiadau diddorol hyn gefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol, corfforol a chyfathrebu plant. Mae addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n ymatebol, yn ddynamig ac wedi'i gwreiddio mewn cydberthnasau cadarn, yn hanfodol er mwyn gwireddu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Mae'n arbennig o bwysig inni sicrhau bod yr amgylchedd dysgu ym mhob lleoliad gofal plant, gwaith chwarae ac addysg y blynyddoedd cynnar yn cynnig cyfleoedd cyson ar gyfer y canlynol:

• chwarae a dysgu seiliedig ar chwarae

• bod yn yr awyr agored

• dysgu dilys a phwrpasol

• llythrennedd corfforol

Mae chwarae a dysgu seiliedig ar chwarae yn hawl sylfaenol i bob plentyn. Mae ganddynt angen cynhenid cryf i chwarae. Drwy chwarae a phrofiadau chwareus, bydd plant yn dod o hyd i ffyrdd o archwilio amrywiaeth o emosiynau a dysgu am y byd y maent yn byw ynddo gyda phobl eraill. Mae angen canolbwyntio a thalu sylw i fanylion wrth chwarae, ac mae'n gyfrwng i blant ddysgu drwy ddyfalbarhad a chydweithio. Nid yn unig y mae chwarae'n hollbwysig i'r ffordd y daw plant yn hunanymwybodol, a'r ffordd y byddant yn dysgu rheolau ymddygiad cymdeithasol; mae hefyd yn hanfodol i ddatblygiad corfforol, deallusol a chreadigol. Mae chwarae'n dylanwadu ar ffyrdd o feddwl ac agweddau at ddysgu, ac yn cefnogi ymdeimlad o hunanwerth a hunaneffeithiolrwydd sy'n effeithio ar hyder ac annibyniaeth.

- **Erthygl 42 – Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.**

Nid rhywbeth dewisol yw hawliau plant. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflawni hawliau babanod, plant a phobl ifanc, drwy ein dyletswyddau a roddir ar Weinidogion, ac ar y gweithlu, a thrwy ein cyfres eang o raglenni sy'n ymrwymedig i helpu rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ifanc i fod ar eu gorau ac i wybod am hawliau

plant a gallu eu harfer. Mae oedolion sy'n deall hawliau plant yn well yn gallu gwneud yn siŵr y bydd profiadau plant o'u hawliau yn well hefyd.

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant, sy'n ceisio grymuso plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o hawliau plant ymhlith plant a phobl ifanc, teuluoedd ac ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Yn benodol, mae'r cymorth yn y Blynyddoedd Cynnar i ddeall yr hawliau yn ymarferol yn cynnwys:

- **Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni a gofalwyr** Mae hawliau plant wedi'u gwreiddio drwy ymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.
- **Hyrwyddo Canllawiau Magu Plant** Mae hawliau plant wedi'u gwreiddio mewn cymorth cyffredinol a chymorth wedi'i dargedu i rieni.
- **Hyrwyddo hawliau plant drwy raglen Dechrau'n Deg** Gweithio gyda Chydgysylltwyr Dechrau'n Deg i hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar hawliau plant a'u helpu i ledaenu gwybodaeth i'w rhwydweithiau.
- **Cefnogi'r Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar** Helpu'r rhwydwaith hwn i ddod â rhanddeiliaid ynghyd i rannu arferion da ym maes hawliau plant.
- **Casglu safbwyntiau rhieni a gofalwyr er mwyn llywio ein dull gweithredu** Helpu Plant yng Nghymru i lywio ein dull o ymgysylltu â rhieni a gofalwyr yn genedlaethol.

Mae'r tîm Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar hefyd wedi gweithio gyda chydweithwyr ym maes hawliau plant yn fewnol ac yn allanol er mwyn hyrwyddo'r Confensiwn a chefnogi'r ffaith bod hawliau plant wrth wraidd popeth a wnawn yng Nghymru. Mae cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau ar gael i gefnogi ein hymarfer.

Ymhlith y sefydliadau allweddol a all ein cefnogi mae Plant yng Nghymru a Chomisiynydd Plant Cymru. O oedran cynnar, bydd plant yn dysgu am eu hawliau, a hynny'n aml drwy gydberthnasau, y ffordd y bydd eraill yn eu trin ac yn gofalu amdanynt a'r cyfleoedd a'r profiadau y byddant yn eu cael. Byddant hefyd yn dysgu sut i fynegi eu hunain a gwneud dewisiadau, yn ogystal â dysgu am eu rhyngddibyniaeth ag eraill, ac am ba mor werthfawr ydyn nhw a beth yw eu lle yn y byd.

Mae cefnogi hawliau ym maes Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ymwneud â darparu amgylchedd sy'n gwrando ac yn annog, sefydlu cydberthnasau cadarnhaol, sicrhau bod chwarae yn ganolog a bod yn ymarferydd medrus. Mae

hawliau plant yn nodwedd gref yn y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru a'r cynlluniau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ac mae nifer o adnoddau wrthi'n cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid ym maes hawliau plant ar gyfer rhieni ac ymarferwyr mewn perthynas â llais y plentyn – Dyma fi! (0-12 mis), Rwy'n archwilio! (1-2 oed), Edrycha arna i nawr! (2-3 oed) ac Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5 oed).

**Cydraddoldeb**

Mae gan Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gyfraniad sylweddol i'w wneud i liniaru effaith anghydraddoldebau, p'un a ydynt ar ffurf hiliaeth, tlodi, neu ffactorau cymdeithasol eraill megis diffyg cyfleoedd, y gall pob un ohonynt gael effeithiau parhaus ar fywydau unigolion. Rydym yn ymrwymedig i chwalu rhwystrau er mwyn sicrhau y caiff babanod a phlant bach eu helpu i gael cyfle cyfartal i gael plentyndod hapus sy'n llawn boddhad. Mae tair thema i'n hegwyddorion allweddol sy'n llywio'r broses o ddatblygu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar:

1. Ansawdd y ddarpariaeth: Rydym yn ceisio rhoi profiadau dysgu a gofal ysgogol o ansawdd uchel i bob baban a phlentyn bach ym mhob lleoliad addysg, gwaith chwarae a gofal plant y byddant yn eu mynychu.

2. Mynediad at ddarpariaeth: Dylai darpariaeth cymorth fod yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau unigol sy'n cefnogi'r plentyn a'i ddatblygiad, yn ogystal â galluogi rhieni i ddeall yr amrywiaeth eang o gymorth sydd ar gael iddynt a all eu helpu i allu gweithio.

3. Cefnogi'r gweithlu: Dylai pob gweithiwr proffesiynol ym maes Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gael ei werthfawrogi'n gyfartal a chael mynediad teg at becyn o ddysgu a chymorth.

Mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a'r Fframwaith Ansawdd wedi cael eu datblygu er mwyn cefnogi ein gweledigaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer Cymru. Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd yn glir y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid yn y sectorau gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin. Mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn nodi sut beth yw darpariaeth o ansawdd yn ymarferol ym mhob rhan o'r sector addysg gynnar a gofal plant ac mae'n cyd-fynd ag egwyddorion Dechrau'n Deg, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig yng Nghymru, hawliau plant, y safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgolion, Egwyddorion Gwaith Chwarae, y Cwricwlwm i Gymru a'r Llwybrau Datblygu.

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru yn ymestyn y tu hwnt i ddyletswydd CCUHP er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o hawliau pobl anabl hefyd (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau). Rhoddir y ddyletswydd hon ar bobl sy'n gyfrifol am addysgu a dysgu mewn perthynas â'r

cwricwlwm, **gan gynnwys addysg feithrin nas cynhelir.** Mae addysg hawliau dynol yn rhan o bedwar diben gorfodol y cwricwlwm – dibenion sydd bellach wrth wraidd yr holl ddysgu ac addysgu ar gyfer plant rhwng 3 ac 16 oed. Wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno, bydd pob ysgol a lleoliad yng Nghymru yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau'r plentyn – gan roi pwyslais ar rôl ganolog hawliau wrth feithrin ein plant a'n pobl ifanc i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd i Plant yng Nghymru i gynnal rhaglen Cymru Ifanc, er mwyn hyrwyddo hawliau plant a CCUHP a chodi ymwybyddiaeth ohonynt yng Nghymru a galluogi plant a phobl ifanc i sicrhau y caiff eu llais ei glywed ym mhrosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau'r llywodraeth.

Gwneir ymdrechion penodol i sicrhau y bydd y bobl hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o beidio â chael eu clywed yn cael eu cynnwys. Mae wyth bwrdd cynghori wedi cael eu sefydlu i gynrychioli buddiannau amrywiol plant a phobl ifanc yng Nghymru a llywio meysydd polisi allweddol y llywodraeth. Ymhlith yr aelodau mae cynrychiolaeth i ofalwyr ifanc, plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, Niwrowahaniaeth, plant a phobl ifanc LHDTC+, plant a phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth na hyfforddiant, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a phlant a phobl ifanc â phrofiad bywyd mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant.

Mae gwaith prosiect penodol yn cael ei wneud gyda phlant rhwng 3 a 10 oed yn eu hysgolion cynradd lle bo hynny'n briodol, ac mewn ffyrdd sy'n ystyrlon ac yn hygyrch iddynt.

Mae ceisio safbwyntiau plant mewn ffordd ystyrlon yn galluogi mwy o blant i gymryd rhan yn well yn y broses o lywio gwasanaethau a chyfleoedd. Mae'r templed Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 22 awdurdod lleol ddangos sut maent wedi ymgynghori â phlant. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi datblygu dulliau ystyrlon ac addas i blant o gasglu a chynnwys safbwyntiau plant, gan gynnwys gweithdai chwareus, grwpiau ffocws a chrwydro cymdogaethau.

### Gwrando ar Blant a Phobl Ifanc

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ariannu Plant yng Nghymru i wneud gwaith ymchwil er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wrando ar fabanod a phlant bach iawn. Mae Plant yng Nghymru wedi treialu dulliau gyda babanod (0-1 oed), plant bach (1-2 oed) a phlant cyn oed ysgol (3-4 oed).

O ganlyniad i'r treial, mae'r adnoddau canlynol wedi cael eu datblygu:

- mae posteri Hawliau yn y Blynyddoedd Cynnar yn rhannu negeseuon allweddol ar gyfer darparu amgylcheddau cadarnhaol sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer babanod, plant bach a phlant cyn oed ysgol.

- adnoddau er mwyn helpu pobl sy'n gweithio gyda phlant cyn oed ysgol i ddeall y cwricwlwm newydd.
- posteri pwyntiau trafod er mwyn helpu oedolion i wrando ar fabanod a phlant bach.
- ffeithlun ar hawliau digidol plant. Mae'n helpu oedolion i ddeall sut i barchu a diogelu hawliau plant yn yr amgylchedd digidol.

**Gwrando ar Rieni a Theuluoedd**

Drwy gysylltu â rhieni, rydym yn datblygu dull o ymgysylltu â rhieni a chydgynhyrchu polisïau gyda nhw. Cydweithio â Plant yng Nghymru ar gamau cynnar y gwaith hwn, gan gynnwys sefydlu prosiect Cyswllt Rhieni Cymru; ffurfio fforwm cenedlaethol er mwyn dwyn y sefydliadau a'r awdurdodau lleol hynny sydd eisoes yn ymgysylltu â rhieni ynghyd; recriwtio grŵp llywio o rieni; ac yn dechrau datblygu platfform ar-lein addas er mwyn gallu ymgysylltu ymhellach. Pan fydd wedi'i sefydlu, bydd 'Cyswllt Rhieni Cymru' yn ein galluogi i ymgysylltu a chydgynhyrchu polisïau gyda rhieni plant o bob oedran, mewn perthynas â phob maes diddordeb a pholisi.

**Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc**

**Datblygiad plant**

Mae'r cyfnod rhwng genedigaeth a 5 oed yn amser hollbwysig ar gyfer datblygiad gwybyddol. Mae gwaith ymchwil niwrowyddonol wedi dangos bod rhyngweithio ag oedolion a chyfleoedd i chwarae yn effeithio ar natur saernïaeth yr ymennydd[7]. Gall profiadau cynnar plant osod sylfeini cadarn neu fregus ar gyfer dysgu'n nes ymlaen, a cheir tystiolaeth y gall darpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd da gyflymu datblygiad iaith, sgiliau rheoli emosiynau ac ymddygiad a llesiant[8].

Pan fyddwn yn cefnogi datblygiad cyfannol plant yn ystod y blynyddoedd cynnar, byddwn yn eu helpu i dyfu, ffynnu a datblygu, yn unol â'u hawliau. Mae hyn yn cynnwys helpu babanod a phlant i ddod yn fwy annibynnol, i gymdeithasu, i ganolbwyntio ar chwarae am gyfnodau hwy ac, ar ôl dechrau'r ysgol, i fod yn fwy cydweithredol, yn oddefgar tuag at wahaniaethau, ac yn fwy parod ar gyfer heriau[9] yn nes ymlaen mewn bywyd. Gall buddsoddi ym mlynyddoedd cynnar bywyd plentyn osod y sylfeini ar gyfer plant fel deiliaid hawliau i ffynnu a gwireddu eu potensial. Gall

---

[7] Frost, J. L. (1998). Neuroscience, Play, and Child Development.

[8] Melhuish, E., Ereky-Stevens, K., Petrogiannis, K., Ariescu, A., Penderi, E., Rentzou, K., ... a Leseman, P. (2015). A review of research on the effects of Early Childhood Education and Care (ECEC) upon child development.

[9] Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) (2003); Schweinhart et al (1993), Love et al (2005)

gael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant, ac mae'n llai tebygol y bydd angen i blant sy'n gallu sicrhau ac arfer eu hawliau gael ymyriadau yn nes ymlaen mewn bywyd. Gall hefyd wella cymdeithasoli, gallu gwybyddol a chyrhaeddiad addysgol, a'u cyfraniad at gymdeithas yn y tymor hwy.

### Codi cyrhaeddiad

Ceir tystiolaeth gadarn y gall darpariaeth gofal ac addysg o ansawdd da helpu i leihau effaith statws economaidd-gymdeithasol ar ddatblygiad plant a'u deilliannau yn nes ymlaen mewn bywyd, gan gynnig llwyfan pwysig ar gyfer dysgu gydol oes[10]. Mae tystiolaeth o astudiaethau hydredol yn awgrymu y gellir gweld effeithiau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar mewn addysg uwchradd ac yn nes ymlaen mewn bywyd gwaith[11].

### COVID-19

Yn dilyn y pandemig, mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd yn bwysicach fyth er mwyn cefnogi plant yng Nghymru i ddatblygu a dysgu. Mae adroddiad Listening to Unheard Children 2023 yn tynnu sylw at 1.9 miliwn o blant sy'n ei chael hi'n anodd siarad a deall geiriau, sef cynnydd o 26% dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae adroddiad The Casting Long Shadows: The ongoing impact of the COVID-19 pandemic on babies, their families and the services that support them' yn datgelu ystadegau ar fabanod a phlant bach a aned neu sy'n tyfu i fynu drwy bandemig COVID-19, gan nodi bod llawer o blant bach yn wynebu mwy o risg o niwed, bod oedi yn eu sgiliau cymdeithasol a bod iechyd meddwl gwael rhieni wedi effeithio arnynt. Ystyriodd yr astudiaeth Social Distancing & Development effaith newidiadau mewn cwsg, arddulliau magu plant, rhyngweithiadau cymdeithasol, y defnydd o sgriniau a gweithgareddau awyr agored/ymarfer corff ar ddatblygiad gwybyddol plant bach yn ystod cyfyngiadau symud y DU yn ngwanwyn 2020. Mae angen i'n plant ieuengaf fynychu lleoliadau sy'n cynnig amgylcheddau a chyfleoedd chwarae cefnogol; sy'n chwalu rhwystrau; sy'n creu ymdeimlad o berthyn[12]; ac sydd â gweithlu amrywiol a werthfawrogir ac a gefnogir.

### Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys

---

[10] https://www.seed.natcen.ac.uk/findings/longitudinal-study/impact-study-on-early-education-use-and-child-outcomes-up-to-age-five-years.aspx

[11] Heckman, James J., Seong Hyeok Moon, Rodrigo Pinto, Peter A. Savelyev ac Adam Yavitz. 2010. 'The

Rate of Return to the High Scope Perry Preschool Program.' Journal of Public Economics 94 (1–2):

31 114–28. doi:10.1016/j.jpubeco.2009.11.001

[12] Tyrie, J. Knight, C. Borras, M (2021) Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 82/2021

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael effaith sylweddol ar feysydd polisi eraill. Mae trafodaethau â thimau polisi eraill a rhanddeiliaid allweddol yn dal i fynd rhagddynt ac maent yn rhan bwysig o'r gwaith o ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i Gymru. Rydym hefyd yn gweithio'n drawslywodraethol i uno a chysoni amrywiol feysydd polisi wrth ddatblygu'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

Er mwyn datblygu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, mae angen ymgysylltu'n eang ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan sicrhau bod datblygu'n digwydd mewn ffordd integredig a chydweithredol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector (gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau ambarél ac yn uniongyrchol gyda darparwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill) er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwybod am ddatblygiadau. Gan ystyried hyn, lle bynnag y bo modd, caiff camau eu cymryd i sicrhau y caiff gwybodaeth hygyrch ei darparu.

Cafodd y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, a'r adnoddau cysylltiedig (adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar), eu cydgynhyrchu gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid o safbwynt addysg a gofal plant. Cafodd yr adnoddau hyn eu datblygu gan ymarferwyr ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda babanod a phlant bach a'u teuluoedd bob dydd.

Bydd yr adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar ffurf drafft am flwyddyn tra byddwn yn casglu adborth gan y sector ar unrhyw welliannau y bydd angen eu gwneud.

Yn yr un modd, mae grŵp o randdeiliaid cynrychiadol wedi cydgynhyrchu'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, ac wedi'i weld, er mwyn sicrhau y caiff y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sectorau gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin ei ddwyn ynghyd yn glir ac y bydd pawb sy'n gweithio yn y sectorau'n gallu deall y rhan sydd ganddynt i'w chwarae, Rydym wedi gweithio gydag ymarferwyr gofal plant, ysgolion, y gweithgor, Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar, Swyddfa'r Comisiynydd Plant a Plant yng Nghymru.

Yr hyn sy'n gwneud darpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ddarpariaeth o ansawdd da yw bod buddiannau'r plentyn wrth ei wraidd, ynghyd â phwyslais ar helpu plant i archwilio o fewn amgylchedd meithringar a diogel[13].

---

[13] Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (2018) *COMMISSION STAFF WORKING DOCUMENT Accompanying the document Proposal for a COUNCIL RECOMMENDATION on High Quality Early Childhood Education and Care Systems.* Brwsel

Ni ragwelir effeithiau negyddol ar gyfer y darn hwn o waith.

*I gael cyngor am waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc, cysylltwch â'r Gangen Plant. Mae gennym gydberthynas sefydledig â Plant yng Nghymru, a all eich helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy raglen Cymru Ifanc o bosibl.*

## Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| *Erthygl 2 – Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.* | x | | *Mae'n debygol y bydd ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael effaith gadarnhaol am ei bod yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni dull cyson o ofalu, meithrin, dysgu a datblygu, drwy gynnig cyfleoedd addysg a gofal plant seiliedig ar chwarae o ansawdd da i bob babi a phlentyn bach hyd at 5 oed a'u teuluoedd, ni waeth beth fo'u hanghenion a'u cefndiroedd. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol anghenion cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol a chorfforol plant er mwyn cefnogi eu llesiant a'u dysgu gydol oes.*<br><br>*Mae mynediad at Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod yn bwysig oherwydd gall helpu i adnabod anghenion yn gynnar, ymyrryd yn gynnar a phontio a chamu ymlaen mewn modd cadarnhaol i fyd addysg.*<br><br>*Ceir nifer o raglenni a pholisïau a ddaw o dan ambarél* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, a bydd gan bob un ei asesiad ei hun fel y bo'n briodol. Tynnir sylw at ddim ond dwy enghraifft isod:*<br><br>*Caiff y Cynnig Gofal Plant hefyd ei gefnogi gan y Grant Cymorth Ychwanegol. Yn 2023/24 cronfa gwerth £2m yw hon, a gall awdurdodau lleol ei defnyddio er mwyn cefnogi plant y nodwyd bod ganddynt anghenion cymorth ychwanegol, er mwyn eu galluogi i fanteisio ar elfen gofal plant y Cynnig (cyfrifoldeb yr ysgol yw'r elfen addysg gynnar). Grant a arweinir gan y galw yw hwn, felly os bydd awdurdod lleol yn mynd y tu hwnt i'w ddyraniad grant, byddwn yn ceisio cyllid ychwanegol ar ei gyfer. Er mwyn tynnu i lawr o'r gronfa hon, rhaid bod y rhieni'n derbyn y Cynnig Gofal Plant.*<br><br>*Rydym wedi cadw at ddiffiniad llac o angen cymorth ychwanegol yn fwriadol, gan fod oedran y plant dan sylw yn aml yn golygu na fyddant wedi cael diagnosis penodol nac wedi cael asesiad gan banel ADY yr awdurdod lleol eto. Er y bydd hyn weithiau'n golygu y bydd cais am gyllid drwy'r Grant Cymorth Ychwanegol yn gweithredu fel sbardun i gyfrifoldebau'r awdurdod lleol o dan ddeddfwriaeth ADY ddechrau.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • *Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn cefnogi plant a theuluoedd mewn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Nod y rhaglen yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed yn yr ardaloedd lle mae ar waith. Mae pedair elfen graidd: gofal plant rhan-amser o ansawdd da; ymweliadau iechyd gwell; cymorth rhianta; a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i barhau i gefnogi ein rhaglen Dechrau'n Deg flaenllaw. Ac, yn unol â'r Cytundeb Cydweithio â Plaid Cymru, rydym wedi ymestyn yr ymrwymiad hwn i fynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg.*<br>*Mae hyn yn rhan o weledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru i ddatblygu system Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn yng Nghymru.*<br><br>*Mae darparu gofal plant rhan-amser o ansawdd da a ariennir i* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *blant 2-3 oed yn rhan annatod o raglen Dechrau'n Deg a dyma pam rydym wedi dewis ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal plant yn y blynyddoedd cynnar drwy'r rhaglen hon.* |
| *Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.* | x | | *Mae'n debygol y bydd ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael effaith gadarnhaol am ein bod yn annog pawb sy'n gweithio yn y sector i chwarae rhan a:*<br>• *meithrin dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygiad plant a phwysigrwydd chwarae.*<br>• *casglu barn drwy ein hymgyngoriadau a'n cynigion ymchwil;*<br>• *manteisio ar y cyfleoedd hyfforddi a ddarperir i uwchsgilio, meithrin sgiliau newydd a chwblhau cyrsiau gloywi.*<br>• *hybu'r Gymraeg.*<br>• *datblygu a thyfu gweithlu amrywiol.*<br>• *cydweithio i gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan groesawu amrywiaeth a dathlu diwylliannau gwahanol.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • *cydweithio ar bolisïau, canllawiau a deunyddiau ategol.*<br>• *gweithio gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i gefnogi uwch-arweinwyr a rhoi gwybodaeth iddynt am bwysigrwydd y blynyddoedd cynnar;*<br>• *helpu i hyrwyddo Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol ymysg rhieni a'r gymuned ehangach.*<br>• *helpu babanod a phlant bach drwy rannu gwybodaeth i gefnogi cyfnodau pontio didrafferth.*<br>• *cynyddu gwaith partneriaeth yn y sectorau chwarae, dysgu a gofal.*<br>• *helpu i newid safbwyntiau am ofal plant a gwerth gweithio ym maes gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin*<br>• *ymateb i anghenion datblygiadol plant, blaenoriaethu ymyriadau cynnar, a nodi plant y gall fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol*<br>• *cefnogi'r broses o bontio rhwng lleoliadau'r* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *blynyddoedd cynnar ac ysgolion*<br>• *deall yr hyn y mae’n ei olygu i wireddu hawliau babanod a phlant bach yn ymarferol*<br><br>*Mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn dwyn ynghyd y gwahanol ofynion ar gyfer y math o ddarpariaeth o ansawdd da sydd ei hangen yng Nghymru. Dylai arweinwyr ac ymarferwyr o'r holl leoliadau gofal plant a gwaith chwarae ac ysgolion ddefnyddio'r fframwaith i arwain eu darpariaeth; gall rhieni/gofalwyr ei ddefnyddio i ddeall y ddarpariaeth sydd ar gael i'w plentyn yn well a gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio er mwyn helpu i ddatblygu a gwella'r ddarpariaeth.*<br><br>*Dylai defnyddio'r Fframwaith Ansawdd sicrhau ein bod yn cynnig dulliau gweithredu llwyddiannus sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth dda ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod a'n helpu i fyfyrio ar ein hymarfer a'i wella'n barhaus er mwyn cefnogi pob babi a phlentyn yn well.*<br><br>*Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi hyblygrwydd i ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau allu cyflwyno cwricwlwm sy'n diwallu anghenion eu plant yn eu cyd-destun penodol. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *addasu'r cwricwlwm yn eu hysgol/lleoliad yn y ffordd fwyaf addas ar gyfer anghenion a diddordebau eu plant a'u cymunedau.*<br><br>*Mae uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus mewn sector y mae pobl yn dewis dilyn gyrfa ynddo wedi'i nodi yn ein cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi recriwtio a chadw, datblygu sgiliau, a chymorth i feithrin gallu a galluogrwydd. Rydym yn dal yn ymrwymedig i gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun hwnnw a byddwn yn cyhoeddi adolygiad a diweddariad o'r Cynllun yn 2024.* |
| *Erthygl 5 – Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio eu hawliau'n briodol.*<br>*Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw bywyd llawn. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.* | x | | *Mae'n debygol y bydd ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar cael effaith gadarnhaol am fod Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â rhieni a rhoddwyr gofal eraill ac yn adeiladu ar hynny, er mwyn helpu pob baban a phlentyn bach i gael y dechrau gorau mewn bywyd ac i deimlo ei fod yn cael ei rymuso a'i feithrin, a'i fod yn cael gofal.*<br><br>*Mae cefnogi teuluoedd i sicrhau bod babanod a phlant bach yn cael profiadau da yn y cartref yn* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *bwysig. Rydym am adeiladu ar y gofal y mae babanod a phlant bach yn ei gael gan eu rhieni a/neu eu gofalwyr, a'r ffordd y maent yn cael eu meithrin ganddynt. Mae'r gallu i gael addysg a gofal plant o ansawdd da wrth wraidd ein gweledigaeth i gefnogi babanod a phlant bach yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn cynnwys cynnig darpariaeth hygyrch a chynhwysol i gefnogi plant o bob oed, ni waeth beth fo'u cefndir na ph'un a oes ganddynt unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.*<br><br>*Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf ADY) a'r cod cysylltiedig yn rhoi hawliau penodol i blant a theuluoedd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion addysgol ychwanegol eu diogelu ac y cynllunnir ar eu cyfer.*<br><br>*Gwyddom fod y gallu i gael gofal plant hygyrch yn helpu rhieni a gofalwyr i sicrhau cyflogaeth dda a sefydlog, sy'n eu galluogi i wella amgylchiadau eu teulu ac yn helpu i drechu tlodi. Mae ysgolion a lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae yn hanfodol i'n heconomïau lleol.*<br><br>*Mae ein hymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo yn cefnogi rhieni a gofalwyr drwy ganolbwyntio ar rianta* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *cadarnhaol a chymorth ymyrryd yn gynnar. Mae gwefan ddwyieithog benodol, ynghyd â chanllawiau gwybodaeth a chyngor, yn cynnig atebion i bryderon rhianta cyffredin. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni a gofalwyr. I deuluoedd y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt, gall rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf gynnig cymorth cynnar er mwyn helpu i atal problemau rhag gwaethygu.*<br><br>*Mae meithrin sgiliau lleferydd, iaith, cyfathrebu a darllen plant yn arbennig o allweddol ar gyfer ein plant ieuengaf. 'Siarad Gyda Fi' yw ein hymrwymiad i gefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant. Gall hybu Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar leihau effaith anfantais gymdeithasol drwy gydol oes.*<br><br>*Rydym am i fabanod a phlant bach ganfod manteision dwyieithrwydd neu amlieithrwydd. Mae helpu babanod a phlant bach i fanteisio ar ddarpariaeth gofal plant ac addysg feithrin cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog yn hanfodol er mwyn helpu i gynyddu'r niferoedd sy'n symud ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg. Gall hefyd gynnig cymorth ar gyfer trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, ac mae ein polisïau presennol eisoes yn gwneud cymaint i sicrhau bod ein darpariaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiad plant a chefnogi teuluoedd, gan gynnwys:*<br><br>• *rhaglen flaenllaw Dechrau'n Deg*<br>• *ehangu darpariaeth gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i bob plentyn 2 oed yng Nghymru*<br>• *Cynnig Gofal Plant Cymru sy'n cynnig 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir i blant 3 a 4 oed rhieni sy'n gweithio a rhieni sydd mewn addysg am 48 wythnos y flwyddyn*<br>• *Y Cwricwlwm i Gymru* |
| *Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i roi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.* | *x* | | *Un o nodweddion allweddol datblygiad, chwarae a dysgu cynnar effeithiol ar gyfer pob babi a phlentyn bach yw ansawdd y rhyngweithio ag oedolion.*<br><br>*Oedolion sy'n Galluogi Dysgu sydd:*<br><br>• *yn gynnes, yn talu sylw ac yn ymateb i fabanod a phlant bach.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | <ul><li>*yn fedrus, yn sylwgar ac yn ymddiddori mewn babanod a phlant bach a'r ffordd y maent yn datblygu.*</li><li>*yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddatblygiad plant i gefnogi pob plentyn.*</li><li>*yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y mae babanod a phlant bach yn dysgu sut i gynllunio profiadau ac amgylcheddau.*</li></ul>*Mae oedolion sy'n galluogi dysgu yn rhan sylfaenol o Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Mae'n hanfodol meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol ym maes datblygiad plant a defnyddio hynny'n effeithiol i ddiwallu:*<ul><li>*anghenion babanod a phlant bach unigol*</li></ul>*cefnogi:*<ul><li>*hawliau babanod a phlant bach*</li><li>*datblygiad cyfannol babanod a phlant bach*</li><li>*mwynhad babanod a phlant*</li></ul>*gwella:* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • *llesiant babanod a phlant bach*<br>• *cynefin i bob babi a phlentyn bach*<br><br>*Yn ystod y broses ddylunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ag amrywiaeth o ysgolion a lleoliadau er mwyn sicrhau bod trefniadau'r cwricwlwm yn hygyrch i bob plentyn, gan gynnwys lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin a ariennir a grwpiau â ffocws ar ADY. Hefyd, mae pecyn cymorth i ymarferwyr ei ddefnyddio i'w helpu wrth gynllunio'r cwricwlwm (gan gynnwys defnyddio llais y dysgwr) wedi cael ei ddatblygu.*<br><br>*Mae nifer o adnoddau wrthi'n cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid ym maes hawliau plant ar gyfer rhieni ac ymarferwyr mewn perthynas â llais y plentyn – Dyma fi! (0-12 mis), Rwy'n archwilio! (1-2 oed), Edrycha arna i nawr! (2-3 oed) ac Edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5 oed).* |
| *Erthygl 19 – Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw* | x | | *Mae ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn nodi bod gan blant hawliau cyfreithiol sylfaenol i dyfu i fyny mewn amgylchedd hapus, iach a diogel, fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *un arall sy'n edrych ar eu hôl.* | | | *Gall Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod adeiladu ar y fagwraeth a'r dysgu y mae rhieni yn eu darparu gartref a/neu helpu fel mesur ataliol ar gyfer rhai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a ffynonellau eraill o adfyd yn ystod plentyndod yn peri risg wirioneddol na chaiff babanod a phlant bach y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Gall y profiadau hyn, a'r trawma sy'n gysylltiedig â nhw, gael effaith negyddol ar ddatblygiad plentyn. Mae'n bwysig bod ysgolion a lleoliadau, a'r rhai sy'n gweithio ynddynt, yn deall y cysylltiad rhwng adfyd a thrawma yn ystod plentyndod, a chynnydd a chanlyniadau datblygiadol. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol (y Pecyn Cymorth) wedi cael ei ddatblygu er mwyn helpu unigolion a thimau i fyfyrio ar ansawdd darpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, gan gynnwys myfyrio ar y safon ansawdd. Caiff pob baban a phlentyn ifanc ei ddiogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru yn esbonio:*<br><br>• *pa gymorth a chanllawiau sydd ar gael i leoliadau ac ysgolion?* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae hyn yn cynnwys timau diogelu awdurdodau lleol sy'n gallu cefnogi lleoliadau/ysgolion ac y gellir cysylltu â nhw i ofyn am gyngor ac arweiniad ar gyfer unrhyw ymholiadau neu i roi gwybod am bryderon.<br>• *Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn a gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.*<br>• *Rhaid i amgylcheddau effeithiol dan do ac yn yr awyr agored fodloni'r holl ddisgwyliadau diogelu er mwyn sicrhau y bydd pob plentyn yn ddiogel ac yn cael ei amddiffyn.*<br>*Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau hanfodol i ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod.* |
| *Erthygl 24*<br>*Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai* | x | | *Ategir Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir yng Nghymru a'r canllawiau statudol ar fwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.* | | | *Ceir darpariaethau hefyd ym Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a'r rheoliadau a wnaed oddi tano.* |
| *Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill, a'r amgylchedd.* | x | | *Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn sicrhau bod babanod a phlant bach wrth wraidd popeth a wnawn. Drwy gydnabod a deall natur unigol ac unigryw pob babi a phlentyn bach, yn ogystal â deall a gwreiddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gallwn gynnig cyfleoedd i blant ddatblygu'n gyfannol mewn amgylchedd sydd wir yn gwerthfawrogi pwy ydyn nhw.*<br><br>*Mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn pwysleisio bod cefnogi hawliau ym maes Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ymwneud â darparu amgylchedd sy'n gwrando ac yn annog, sefydlu cydberthnasau cadarnhaol, sicrhau bod chwarae yn ganolog a bod yn ymarferydd medrus.*<br><br>*Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydnabod bod cyfathrebu'n rhan sylfaenol o ddatblygiad babanod a phlant bach ac y bydd amgylchedd effeithiol sy'n llawn cyfathrebu yn cynnig cyfleoedd i fabanod a phlant bach fynegi a chyfleu eu hanghenion, eu meddyliau a'u* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *teimladau yn eiriol ac yn ddieiriau.*<br><br>*Mae hawliau plant wrth wraidd popeth a wnawn yng Nghymru ac mae cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau ar gael i gefnogi ein hymarfer. Ymhlith y sefydliadau allweddol a all ein cefnogi mae Plant yng Nghymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Bydd yr adnoddau Hawliau Plant sydd wrthi'n cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid ym maes hawliau plant ar gyfer rhieni ac ymarferwyr mewn perthynas â llais y plentyn – Dyma fi! (0-12 mis), Rwy'n archwilio! (1-2 oed), Edrycha arna i nawr! (2-3 oed) ac edrycha arna i'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5 years) yn cynnwys codau QR sy'n arwain at wybodaeth fanwl gan gynnwys adnoddau sydd wedi'u cyhoeddi gan Plant yng Nghymru ar ddulliau sydd wedi'u treialu o wrando ar fabanod a phlant bach iawn.  Mae Cynllun Cyflawni Siarad Gyda Fi: Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn ymdrin ag ymgyrch genedlaethol Llywodraeth Cymru i hybu datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu, sydd wedi'i hanelu'n bennaf at blant hyd at 4 mlwydd 11 mis oed. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio rhaglen waith a threfniadau Llywodraeth Cymru i hybu a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru.* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *Mae'n amlwg o'r dechrau'n deg y dylai cwricwla ysgolion: 'adnabod anghenion dysgu unigol a chefndir yr holl ddysgwyr' a bod y Cwricwlwm 'hefyd yn gyfrwng pwysig i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ym mhrofiad dysgu ein plant a'n pobl ifanc''*<br><br>*Mae'r pedwar diben wrth wraidd holl ddysgu a phrofiad pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, yn benodol cydnabod rôl hawliau plant – bydd pob plentyn a pherson ifanc yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus: sy'n parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelodau o gymdeithas amrywiol; ac sy'n deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd.*<br><br>*Mae'r cwricwlwm hwn ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yn ceisio ennyn ymdeimlad o berthyn a balchder ymhlith ymarferwyr a phlant, gan ddathlu diwylliant amrywiol Cymru fodern a helpu plant i feithrin ymdeimlad o gynefin. Gall ymdeimlad o gynefin arwain at deimladau cadarnhaol o gyswllt â'r cartref a'r lleoliad ac wrth i'r plant ddod yn hŷn, gall hyn ehangu i'r gymuned, Cymru a'r byd ehangach.*<br><br>*Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr, teuluoedd a chymunedau godi a* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *gwreiddio ymwybyddiaeth o amrywiaeth fywiog diwylliant Cymru yn ogystal ag agweddau ac ymddygiadau cynaliadwy a chyfrifol drwy gydweithio, rhannu arferion da a deall pob plentyn a theulu unigol. Wrth iddynt ddatblygu, mae plant yn dechrau dod i ddeall eu lle yn y grwpiau niferus y maent yn perthyn iddynt, a'u pwysigrwydd yn y grwpiau hynny.* |
| *Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau* | x | | *Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cydnabod bod plentyndod yn werthfawr, a bod babanod a phlant bach yn chwarae, yn dysgu ac yn tyfu'n gyson. Nid yw Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn golygu creu math newydd o leoliad blynyddoedd cynnar. Mae'n golygu datblygu a chyflawni dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu, drwy gynnig cyfleoedd addysg a gofal plant seiliedig ar chwarae o ansawdd da i bob babi a phlentyn bach hyd at 5 oed. Mae'r babanod a phlant bach yn chwilfrydig ac mae ganddynt angen cynhenid i chwarae. Rydym yn eu helpu i ffynnu a bod yn nhw eu hunain. Rydym yn ymrwymedig i'r canlynol: pwysigrwydd hawl plant i chwarae a'r cyfraniad sylweddol y mae chwarae yn ei wneud tuag at helpu i gymdeithasoli, meithrin gwydnwch, galluogi babanod a phlant bach i ffurfio cysylltiadau sy'n hanfodol ar gyfer llesiant* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *cadarnhaol, a chefnogi dysgu a datblygu.*<br><br>*Mae addysgeg effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn ogystal â chwarae a dysgu seiliedig ar chwarae yn hawl sylfaenol i bob plentyn ac yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru.* |
| *Erthygl 42*<br><br>*Dylai llywodraethau wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.* | x | | *Mae hawliau plant yn nodwedd amlwg yn y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, Llwybrau Datblygu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer plant hyd at 3 oed a'r cynlluniau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.* Mae nifer o adnoddau wrthi'n cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid ym maes hawliau plant ar gyfer rhieni ac ymarferwyr mewn perthynas â llais y plentyn – Dyma fi! *(0-12 mis), Rwy'n archwilio! (1-2 oed), Edrycha arna i nawr! (2-3 oed) ac Edrycha arna i’n mynd, dyma fi’n dod! (3-5 oed).* |

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ffurfiol wedi cael ei gwblhau ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau y caiff babanod a phlant bach eu cefnogi gan oedolion sy'n galluogi dysgu er mwyn iddynt gael plentyndod hapus sy'n llawn boddhad.

*I gael rhagor o wybodaeth am CCUHP a'i Brotocolau Dewisol, ewch i'r Dudalen Hawliau Plant ar y Fewnrwyd.*

## Cyngor i Weinidogion a phenderfyniad y Gweinidogion

Wrth ffurfio cyngor i Weinidogion mewn perthynas â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, bydd swyddogion wedi rhoi sylw dyledus i hawliau plant fel y'u nodir yn CCUHP. Mae tystiolaeth yn dangos bod darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd da yn hollbwysig i ddeilliannau plant. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar bwysigrwydd ansawdd a mynediad at ddarpariaeth. Mae Asesiad Effaith Integredig polisi yn cael ei ddatblygu'n barhaus ochr yn ochr â'r gwaith ehangach o ddatblygu polisi Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a disgwylir i adrannau 1 ac 8 a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun.

Hefyd, bydd yr adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ffurf drafft am flwyddyn er mwyn cael cyfle i ymgysylltu a chasglu adborth ar y ffordd y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol, a bydd meysydd a nodir ar gyfer newidiadau pellach, gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau ategol, yn destun cyngor i Weinidogion.

Yn y dyfodol, hoffem archwilio ffyrdd o ymgysylltu â rhieni a chydgynyhyrchu polisïau gyda nhw drwy 'cyswllt rhieni', sef grŵp cyfranogiad i gefnogi plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau y caiff llais plant a rhieni ei ystyried a chasglu safbwyntiau gan rieni ar yr wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol iddynt mewn perthynas â Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

## Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidogion, dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.*

- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at reolwr gwe eich adran i'w cyhoeddi.*

- *Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru.*

*I gael rhagor o wybodaeth a chymorth mewn perthynas â'r broses hon, ewch i'r Dudalen Hawliau Plant ar y Fewnrwyd sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau.*

**Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Mae Cymru ar daith tuag at roi dull gweithredu integredig o ansawdd da sy'n seiliedig ar hawliau ar waith ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Nid ydym wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ar y cam hwn am fod y cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ymwneud â dod â'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yn y sectorau gofal plant, chwarae ac addysg eisoes yn ei wneud ym maes Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ynghyd mewn ffordd glir. Mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn dwyn ynghyd y gwahanol ofynion ar gyfer y math o ddarpariaeth o ansawdd da sy'n angenrheidiol yng Nghymru. Y gynulleidfa yw'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal plant, gwaith chwarae ac addysg gynnar, o ymarferwyr i arweinwyr strategol, yn ogystal â rhieni a gofalwyr.  Mae swyddfa Comisiynydd Plant Cymru wedi gweld y cynllun a'r adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Rydym wedi ceisio barn y rhai sy'n gweithio'n agos gyda babanod a phlant bach ac wedi cydgynhyrchu'r cynllun a'r adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.

*Os bydd eich polisi'n effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch lunio fersiynau sy'n addas i blant o unrhyw ddogfennau cyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Plant i gael cyngor pellach.*

**Monitro ac Adolygu**

Mae'n hanfodol ailystyried eich Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant er mwyn nodi a gafodd yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol eu gwireddu, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Lle byddwch yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth, ni fydd yn ddigon i chi ddibynnu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol yn unig; bydd angen i chi ddiweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant er mwyn ystyried sut y gallai manylion y cynigion yn y rheoliadau neu'r canllawiau effeithio ar blant.

Gall yr arweinydd polisi ailystyried y fersiwn a gyhoeddwyd o'i Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, ei hailenwi fel adolygiad o'r Asesiad gwreiddiol, a diweddaru’r dystiolaeth o’r effaith. Dylid cyflwyno'r asesiad wedi'i adolygu i'r Gweinidogion ynghyd ag unrhyw gynigion i ddiwygio'r polisi, yr ymarfer neu'r canllawiau. Dylid cyhoeddi'r adolygiad hwn o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ddogfen fyw.  Wrth inni gael adborth gan randdeiliaid ynglŷn â gwelliannau i'r adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ac adborth ar y cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn unol â hynny ac yn rhoi cyngor i Weinidogion ar y camau nesaf posibl.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y’u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae gan Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gyfraniad sylweddol i'w wneud i liniaru effaith anghydraddoldebau, p’un a ydynt ar ffurf hiliaeth, anabledd, tlodi, neu ffactorau cymdeithasol eraill megis diffyg cyfleoedd, y gall pob un ohonynt gael effeithiau parhaus ar fywydau unigolion. Rydym yn ymrwymedig i chwalu'r rhwystrau i sicrhau bod babanod a phlant bach yn cael eu cefnogi i gael plentyndod llawn a hapus drwy ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.Mae ein hegwyddorion allweddol sy'n sbarduno datblygiad Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn dod o dan dair thema:

1. **Ansawdd darpariaeth:** Rydym yn ceisio rhoi profiadau dysgu a gofal ysgogol o ansawdd uchel i bob baban a phlentyn bach ym mhob lleoliad addysg gynnar, gwaith chwarae a gofal plant y byddant yn ei fynychu.

2. **Mynediad at ddarpariaeth:** Dylai darpariaeth cymorth fod yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau unigol sy'n cefnogi'r plentyn a'i ddatblygiad, yn ogystal â galluogi rhieni i ddeall yr amrywiaeth eang o gymorth sydd ar gael iddynt a all eu helpu i allu gweithio. Cydnabyddir y bydd angen cymorth penodol/ychwanegol o bosibl ar rai plant a'u teuluoedd i gael gafael ar ddarpariaeth.

3. **Cefnogi'r gweithlu:** Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio ym maes Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gael ei werthfawrogi'n gyfartal.

Mae Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a chyfres o adnoddau wedi cael eu datblygu er mwyn cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i Gymru. Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd yn glir y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid yn y sectorau gofal plant, gwaith chwarae ac ysgolion. Mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn nodi sut beth fyddai darpariaeth o ansawdd da yn ymarferol ac mae'n cyd-fynd ag egwyddorion Dechrau'n Deg, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig yng Nghymru, y safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgolion, Egwyddorion Gwaith Chwarae, y Cwricwlwm i Gymru a'r Llwybrau Datblygu.

Erbyn tair oed, gall plant o gefndiroedd tlawd [aelwydydd incwm isel, plant â phrofiad o dlodi] fod cymaint â blwyddyn ar ei hôl hi o'u cymharu â'u cyfoedion[14]. I blant sy'n byw mewn teuluoedd lle mae o leiaf un plentyn o dan bump oed, mae bwlch amlwg rhwng cyfraddau tlodi i blant bach sy'n tyfu i fyny mewn teuluoedd Gwyn, Indiaidd a Tsieineaidd, sef tua 30%, a'r rhan fwyaf o grwpiau ethnig eraill, lle maent yn aml yn fwy na 50%. [15]

Mae'r bwlch hwn yn cynyddu'n gyson dros amser a gall yr effeithiau cymdeithasol, emosiynol ac economaidd barhau am oes ar gost fawr iawn i'r unigolyn, ei gymuned ac ar lefel genedlaethol. Fel y dengys data 2015 PISA, roedd y plant hynny a oedd yn mynychu addysg plentyndod cynnar am o leiaf ddwy flynedd yn perfformio'n well ar gyfartaledd nag eraill yn 15 oed[20]. Mae mynediad cyffredinol a chyfartal at Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn nodwedd hanfodol o ddarpariaeth o ansawdd da sy'n cyfrannu at leihau'r bwlch cyrhaeddiad.

Gall darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel gael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiad plentyn a'i helpu i ddatblygu i'w lawn botensial. Dywed y dystiolaeth[16] y canlynol wrthym; ”mae rhai nodweddion teuluol, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig, yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd plant yn profi tlodi ac anfantais”, ”mai aelwydydd unig rieni oedd y math o deulu a oedd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol (ar 38%)”. ”Mae 90% o rieni unigol yn fenywod”. ”Roedd tebygolrwydd o 40% bod pobl gyda phennaeth aelwyd o grŵp Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae hyn yn cymharu â thebygolrwydd o 22% i'r bobl gyda phennaeth aelwyd o grŵp ethnig gwyn”. ”Roedd 31% o blant oedd yn byw mewn teulu lle'r oedd rhywun ag anabledd mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â 26% o'r rhai mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl”.

Mae oedi wrth ddatblygu yn ystod y cyfnod cyn ysgol yn dangos graddiant economaidd-gymdeithasol arwyddocaol, lle mae plant sydd o dan anfantais economaidd yn llawer mwy tebygol o ddangos arwyddion o oedi gwybyddol ac oedi wrth ddatblygu iaith. [17] Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod plant o gefndiroedd o dan

---

[14] Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) (2003); Schweinhart et al (1993), Love et al (2005)

[15] Changing patterns of poverty in early childhood - Sefydliad Nuffield

[16] Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW.CYMRU

[17] Improving the Early Learning of Children Growing Up in Poverty: A Rapid Review of the Evidence (plymouth.ac.uk)

anfantais economaidd yn cael mwy o fudd o ofal plant o ansawdd da ac y gall helpu i unioni anfanteision datblygiadol a'r bwlch cyrhaeddiad[18].

Mae hyrwyddo tegwch a gwerthfawrogi gwahaniaethau plant a'r gweithlu yn rhan bwysig o'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, sy'n cefnogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn sy'n gwerthfawrogi gwahaniaethau ac sy'n rhoi cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd pob lleoliad gofal plant.

Mae rhoi Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar waith yng Nghymru yn uchelgais hirdymor, a fydd yn ymestyn y tu hwnt i dymor y Senedd hon. Mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ddogfen fyw. Bydd yn hyblyg, ac yn cael ei addasu wrth i bolisïau ddatblygu a chael eu hadolygu'n rheolaidd.Byddwn yn casglu data ac yn gwneud gwaith ymchwil er mwyn monitro a yw'r rhaglenni yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a ph'un a ydynt yn cael effaith gadarnhaol ar anghenion pob plentyn yng Nghymru ai peidio. Caiff y data hyn eu defnyddio hefyd i lywio'r adolygiadau parhaus o'r asesiad o effaith Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Rydym am i bob plentyn adeiladu sylfeini ei ddysgu drwy ffyrdd sy'n naturiol iddo; drwy chwarae, arbrofi, chwilfrydedd a dychymyg.

Rydym ni, ynghyd â phartneriaid allweddol, yn gweithio i gefnogi'r gwaith o ddatblygu camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer y sector gofal plant a chwarae. Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn cynnwys camau gweithredu a nodau ar gyfer y sector addysg yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch.

Mae partneriaid Cwlwm yn datblygu amrywiaeth o adnoddau hyfforddi a chanllawiau arfer da i'r sector ledaenu ac ymgorffori egwyddorion allweddol dull gweithredu gwrth-hiliol.

Mae'r meini prawf wedi'u diweddaru ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru yn datgan yn benodol ei bod yn ofynnol i'r holl raglenni AGA sy'n dyfarnu statws athro cymwysedig yng Nghymru fod yn wrth-hiliol a darparu adnoddau er mwyn i athrawon dan hyfforddiant allu creu amgylcheddau dysgu gwrth-hiliol ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i gynyddu nifer yr athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y gweithlu a gwnaethom ddiweddaru ein Cynllun recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon (a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Hydref 2021) ym mis Ebrill 2023. Rydym yn parhau i roi cymhelliant ariannol i fyfyrwyr sy'n dechrau rhaglenni AGA cymwys er mwyn annog unigolion o gymunedau ethnig leiafrifol i hyfforddi, ymuno â'r proffesiwn

---

[18] Y Comisiwn Ewropeaidd (2018) *Proposal for a COUNCIL RECOMMENDATION on High Quality Early Childhood Education and Care Systems.* Brwsel.

addysgu ac aros ynddo (Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol).

Lansiwyd Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) yn 2022. Mae DARPL yn dwyn ynghyd dîm amrywiol o ddarparwyr sydd â phrofiad bywyd a phrofiad proffesiynol o safbwynt Cymreig o godi ymwybyddiaeth hil amlddisgyblaethol.

Drwy ddysgu proffesiynol, adnoddau, digwyddiadau byw, ymgynghori a'r campws rhithwir, mae DARPL yn helpu'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg yng Nghymru i feithrin dealltwriaeth o wrth-hiliaeth. Dylai hyn wedyn arwain at ddatblygu ymarfer gwrth-hiliol. Mae DARPL yn cefnogi ymarferwyr ar bob cam o'u taith wrth-hiliol drwy gontinwwm dysgu proffesiynol. Mae angen i arweinwyr, ymarferwyr, staff ysgol ehangach a dysgwyr gael eu cefnogi o ddechrau'r broses o ddatblygu dulliau gweithredu ysgol gyfan i ymgorffori ffyrdd newydd o weithio yn llawn er mwyn sicrhau bod cyfraniadau a phresenoldeb Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu hymgorffori a'u cynnal yn y Cwricwlwm i Gymru. Y cam cyntaf i gyflawni hyn yw creu gweithlu sy'n deall gwrth-hiliaeth.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ehangu campws rhithwir DARPL i'r sector gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar.

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi gweithlu amrywiol a chynhwysol cadarn drwy ein rhaglenni a'n strategaethau amrywiol i'r gweithlu megis Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar – Cynllun Gweithlu.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae nodi ar gam cynnar, ymyrryd ac atal yn un o egwyddorion allweddol ein diwygiadau ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Ers 2021 mae'n ofynnol i ysgolion a gynhelir (heblaw ysgolion arbennig) o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ddynodi Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) â chyfrifoldeb am gydlynu darpariaeth dysgu ychwanegol i ddisgyblion ag ADY. Hefyd, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddynodi Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar i arwain cymorth yr awdurdod lleol i blant ag ADY sydd o dan oedran ysgol gorfodol (5 oed) nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Mae trydedd rôl statudol hefyd ar waith mewn byrddau iechyd lleol ar ffurf Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). Y SACDA sy'n gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r bwrdd iechyd lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY.

Mae'r Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar yn chwarae rôl bwysig o ran helpu i sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar, hwyluso ymyriadau cynnar, helpu i roi cymorth ychwanegol yn brydlon, a chyfrannu at broses bontio gadarnhaol i fyd addysg.

Mae Cod ADY Cymru yn disgrifio rôl strategol y CADY a'r Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar ac yn nodi pa brofiad ac arbenigedd y dylent feddu arnynt. O 1 Ionawr 2022, mae plant a oedd ar y system AAA wedi dechrau symud i'r system ADY mewn grwpiau blwyddyn, sy'n cynnwys dysgwyr islaw'r oedran ysgol gorfodol. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi cyhoeddi canllawiau i ymarferwyr, canllawiau technegol, a chanllawiau i rieni a phlant ar weithredu hyn. Rydym hefyd wedi datblygu'r llwybr dysgu proffesiynol ADY cenedlaethol.

Mae plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn haeddu'r un hawl i dyfu, dysgu, ymgysylltu a chyrraedd ei botensial ag unrhyw blentyn arall. Bydd gan bob plentyn ei set unigryw ei hun o gryfderau ac anawsterau. Gall addasiadau priodol eu helpu i gyrraedd eu potensial dysgu llawn a lleihau gofid meddwl, sy'n ei gwneud yn bosibl iddynt ffynnu mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Mae cefnogi teuluoedd i sicrhau bod babanod a phlant bach yn cael profiadau da yn y cartref yn bwysig. Rydym am adeiladu ar y gofal y mae babanod a phlant bach yn ei gael gan eu rhieni a/neu eu gofalwyr, a'r ffordd y maent yn cael eu meithrin ganddynt. Mae'r gallu i gael addysg a gofal plant o ansawdd uchel wrth wraidd ein gweledigaeth i gefnogi babanod a phlant bach yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn cynnwys cynnig darpariaeth hygyrch a chynhwysol i gefnogi plant o bob oed, ni waeth beth fo'u cefndir na ph'un a oes ganddynt unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.Mae'r gallu i gael gafael ar ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn bwysig oherwydd gall helpu babanod a phlant bach i gymdeithasu â phlant eraill ac oedolion, cael hwyl, bod yn greadigol a mwynhau dysgu pethau newydd. Gall hefyd helpu i nodi anghenion yn gynnar, ymyrryd yn gynnar a chefnogi cyfnodau pontio cadarnhaol i fyd addysg a chynnydd.

Gwyddom fod y gallu i gael gofal plant hygyrch yn helpu rhieni a gofalwyr i sicrhau cyflogaeth dda a sefydlog, sy'n eu galluogi i wella amgylchiadau eu teulu ac mai hon yw'r ffordd fwyaf effeithiol o drechu tlodi. Mae ysgolion a lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae yn hanfodol i'n heconomïau lleol. Drwy ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu a gweithio gyda'n partneriaid, rydym am helpu teuluoedd a chymunedau i weld manteision gofal ac addysg o ansawdd da iddynt hwy a'u plant.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig:**

Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos yr effaith (gadarnhaol neu negyddol) y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn ei chael ar y grwpiau gwarchodedig a nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. *(Cyfeiriwch at y canllawiau ar Asesiadau Effaith Integredig am ragor o wybodaeth.)* Mae'n bwysig cofnodi unrhyw gyfleoedd a nodwyd gennych a allai hyrwyddo neu hybu cyfle cyfartal. Mae hyn yn cynnwys nodi'r hyn y gallwn ei wneud i chwalu'r rhwystrau a gwella cyfraddau cyfranogiad ymhlith pobl heb gynrychiolaeth ddigonol neu sy'n wynebu anfantais anghymesur.

Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio ag asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb.* Tynnwch sylw at unrhyw fylchau mewn tystiolaeth a nodwyd gennych ac eglurwch sut yr ydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn, os o gwbl.

| **Nodwedd neu grŵp gwarchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran) | Cadarnhaol. Mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar gefnogi pob baban a phlentyn bach o 0-5 oed o bob cefndir o dan dair thema, sef Ansawdd, Mynediad a'r Gweithlu ac mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio'n benodol ar sut beth fyddai darpariaeth o ansawdd uchel mewn unrhyw leoliad addysg a gofal a fynychir.<br><br>Rydym hefyd am helpu rhieni, ni waeth beth fo'u hoedran, i gael gafael ar ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. | Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar gefnogi babanod a phlant bach 0-5 oed, ni waeth beth fo'u cefndir[19]. Mae hon yn adeg allweddol i ddatblygiad yr ymennydd, gyda cherrig milltir hollbwysig o ran gallu gwybyddol, cymdeithasol, corfforol, cyfathrebu, emosiynol ac ymddygiadol a all gael effaith negyddol ar gyfleoedd bywyd yn y tymor hwy os cânt eu colli. Mae tystiolaeth wedi dangos mai ar y cam hwn y mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael yr effaith fwyaf. Mae ein dull gweithredu ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru | Bydd pob rhaglen a nodwyd yn y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn mynd drwy ei Hasesiad Effaith Integredig ei hun y dylid ei adolygu wrth i'r polisi ddatblygu.<br><br>Mae'r Cynllun a'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ynghyd â'r dogfennau ategol wedi cael eu cydlunio/cyd-ddatblygu gan ymarferwyr i ymarferwyr a cheisiwyd adborth i wella'r adnoddau a ddatblygwyd yn barhaus. |

[19] Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) (2003);)

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn golygu datblygu a chyflawni dull cyson o feithrin, dysgu a datblygu, drwy gynnig cyfleoedd addysg a gofal plant seiliedig ar chwarae o ansawdd uchel i bob baban a phlentyn bach 0-5 oed. | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[21] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi'n anfwriadol, neu gael ei ddefnyddio i ddileu'n rhagweithiol, y rhwystrau sy'n anablu pobl â gwahanol fathau o amhariadau) | Cadarnhaol. Mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar gefnogi pob baban a phlentyn 0-5 oed o dan dair thema, sef Ansawdd, Mynediad a'r Gweithlu. Mae'r Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio'n benodol ar sut beth fyddai darpariaeth o ansawdd uchel mewn unrhyw leoliad addysg a gofal a fynychir, ni waeth beth fo'r anabledd.<br><br>Rydym hefyd am helpu rhieni i gael gafael ar ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i'w plant, ni | Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn seiliedig ar ddarpariaeth hygyrch a chynhwysol i gefnogi pob baban a phlentyn bach.<br><br>Rydym am gefnogi triniaeth gyfartal i bob plentyn, ni waeth beth fo natur bywyd teuluol, iaith gyntaf, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd neu fynegiant rhywedd y plentyn, ac ni waeth a oes ganddo anabledd ai peidio. | Rydym yn ymrwymedig i bwysigrwydd nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gynnar, hwyluso ymyriadau cynnar, helpu i roi cymorth ychwanegol yn brydlon ac mewn modd hygyrch, a chyfrannu at broses bontio gadarnhaol i fyd addysg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | waeth beth fo'u hanabledd. | | |
| Ailbennu Rhywedd (y broses o drawsnewid a phobl drawsryweddol) | Rydym am helpu rhieni, ni waeth beth fo'u rhywedd, i gael gafael ar ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar.<br><br>Cadarnhaol. Rydym am i aelodau ein gweithlu ffynnu, cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal a chael eu parchu gan bawb. | Mae darpariaeth yn hygyrch ac yn gynhwysol i gefnogi pob baban a phlentyn, ni waeth beth fo'i rywedd. | Bydd y rhaglenni a'r polisïau sy'n rhan o'r weledigaeth/cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael effaith ar y maes hwn a fydd yn destun ei Asesiad Effaith Integredig ei hun i gefnogi hyn. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol. Rydym am i aelodau ein gweithlu ffynnu, cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal a chael eu parchu gan bawb.<br><br>Rydym hefyd am helpu rhieni i gael gafael ar ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a'u helpu i ddeall datblygiad eu plentyn. | Rydym am ddenu'r bobl gywir i'r sector gofal plant, gwaith chwarae ac addysg sy'n meddu ar y sgiliau a'r ymddygiadau i gynnig cyfleoedd chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel i fabanod a phlant bach. Mae angen inni sicrhau bod y gweithlu yn gallu manteisio ar gyfleoedd i gael hyfforddiant ac ennill cymwysterau sy'n seiliedig ar arferion a safonau effeithiol. Mae angen hyfforddiant arnom sy'n helpu'r gweithlu i ddeall yn llawn sut mae babanod a phlant | Bydd y rhaglenni a'r polisïau sy'n rhan o'r weledigaeth/cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael effaith ar y maes hwn a fydd yn destun ei Asesiad Effaith Integredig ei hun i gefnogi hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bach yn dysgu ac yn datblygu, ac rydym am gefnogi'r gweithlu presennol i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd ac i achub ar fwy o gyfleoedd cyflogaeth. | |
| Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cadarnhaol. Mae gan Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar gyfraniad sylweddol i'w wneud i liniaru effaith anghydraddoldebau, p'un a ydynt ar ffurf hiliaeth, tlodi, anableddau neu ffactorau cymdeithasol eraill megis diffyg cyfleoedd, y gall pob un ohonynt gael effeithiau parhaus ar fywydau unigolion. Rydym yn ymrwymedig i chwalu'r rhwystrau i sicrhau bod babanod a phlant bach yn cael eu cefnogi i gael plentyndod llawn a hapus.<br><br>Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar hefyd yn cefnogi holl aelodau'r gweithlu, ni waeth | Mae darpariaeth yn gynhwysol i gefnogi pob baban a phlentyn, ni waeth beth fo'i gefndir o ran hil**.** | Rydym yn ymgorffori gwrth-hiliaeth ym mhopeth a wnawn, ac yn sicrhau bod pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddiwylliannau, gwerthoedd, crefyddau a chredoau gwahanol, a'r anghenion a'r rhwystrau a wynebir gan gymunedau gwahanol yng Nghymru. Parchu'r ffaith bod gan yr holl ymarferwyr hynny ym maes addysg, gofal plant a gwaith chwarae rolau yr un mor bwysig i'w chwarae i gefnogi llesiant babanod a phlant bach ac i helpu i osod sylfeini eu datblygiad yn y dyfodol.Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ymrwymedig i weithredu mewn ffordd gyfartal a chynhwysol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | beth fo'u hil neu eu cefndir.<br><br>Rydym hefyd am helpu rhieni, ni waeth beth fo'u hil neu eu cefndir i gael gafael ar ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. | | ym mhopeth a wnawn drwy hyrwyddo arferion gorau a datblygu polisïau ac adnoddau ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol.<br><br>Mae Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar wedi cael ei ddatblygu fel rhan o'r gyfres o adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. Mae'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol yn helpu ymarferwyr i fyfyrio ar eu dealltwriaeth a'u hymarfer eu hunain er mwyn cefnogi dysgu a datblygiad pob baban a phlentyn bach.<br><br>Er bod tipyn o waith i'w wneud o hyd cyn bod gwrth-hiliaeth wedi ei hymgorffori ym mhopeth a wnawn, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth, cefnogi'r sector drwy annog cyfleoedd hyfforddiant a gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gymuned. Rydym hefyd wedi casglu adborth gan ein Mentoriaid Cymuned Gwrth-hiliol sydd wedi chware rhan annatod i sicrhau bod yr hyn a baratown yn addas at y diben.<br><br>Drwy DARPL rydym yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol ar gael i'r gweithlu er mwyn cefnogi ymarferwyr. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Cadarnhaol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gefnogi pob baban a phlentyn o 0-5 oed i gael darpariaeth o ansawdd uchel mewn unrhyw leoliad addysg a gofal a fynychir, ni waeth beth fo'u credoau crefyddol neu anghrefyddol.<br><br>Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar hefyd yn cefnogi holl aelodau'r gweithlu, ni waeth beth fo'u crefydd/credoau/diffyg credoau. | Mae darpariaeth yn gynhwysol i gefnogi pob baban a phlentyn, ni waeth beth fo'i grefydd/credoau/diffyg credoau. | Ymgorffori gwrth-hiliaeth ym mhopeth a wnawn, a sicrhau bod pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddiwylliannau, gwerthoedd, crefyddau a chredoau gwahanol, a'r anghenion a'r rhwystrau a wynebir gan gymunedau gwahanol ledled Cymru. Parchu'r ffaith bod gan yr holl ymarferwyr hynny ym maes addysg, gofal plant a gwaith chwarae rolau yr un mor bwysig i'w chwarae i gefnogi llesiant babanod a phlant bach ac i helpu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rydym hefyd am helpu rhieni, ni waeth beth fo'u crefydd/credoau/diffyg credoau, i gael gafael ar ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. | | i osod sylfeini eu datblygiad yn y dyfodol.Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn ymrwymedig i weithredu mewn ffordd gyfartal a chynhwysol ym mhopeth a wnawn drwy hyrwyddo arferion gorau a datblygu polisïau ac adnoddau ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol.<br><br>Mae Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar wedi cael ei ddatblygu fel rhan o'r gyfres o adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i helpu ymarferwyr i fyfyrio ar eu dealltwriaeth a'u hymarfer eu hunain er mwyn cefnogi dysgu a datblygiad pob baban a phlentyn bach.<br><br>Er bod tipyn o waith i'w wneud o hyd cyn bod dull gweithredu cynhwysol a gwrth-hiliol wedi ei ymgorffori ym mhopeth a wnawn, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i godi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ymwybyddiaeth, cefnogi'r sector drwy annog cyfleoedd hyfforddiant a gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd a'r gymuned.Rydym hefyd wedi casglu adborth gan ein Mentoriaid Cymuned Gwrth-hiliol sydd wedi chware rhan annatod i sicrhau bod yr hyn a baratown yn addas at y diben.<br><br>Cwricwlwm i Gymru - Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm newydd yn annog plant a phobl ifanc i barchu eu hawliau a'u diwylliant eu hunain a hawliau a diwylliannau pobl eraill. Eu nod yw rhoi gwybodaeth, sgiliau, agweddau a gwerthoedd i blant a phobl ifanc a fydd yn eu grymuso i hybu eu hiechyd, eu llesiant a'u hurddas; datblygu cydberthnasoedd cymdeithasol a rhywiol llawn parch; ystyried sut mae eu dewisiadau yn effeithio ar eu llesiant eu hunain a llesiant pobl eraill; a deall eu hawliau drwy gydol eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hoes a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu. |
| Rhyw / Rhywedd | Cadarnhaol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gefnogi pob baban a phlentyn, ni wnaeth beth fo'i rywedd, o 0-5 oed i gael darpariaeth o ansawdd uchel mewn unrhyw leoliad addysg a gofal a fynychir. Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar hefyd yn cefnogi holl aelodau'r gweithlu, ni waeth beth fo'u rhyw/rhywedd.<br><br>Rydym hefyd am helpu rhieni, ni waeth beth fo'u rhyw/rhywedd, i gael gafael ar ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. | Mae darpariaeth yn gynhwysol i gefnogi pob baban a phlentyn, ni waeth beth fo'i rywedd. | Bydd y rhaglenni a'r polisïau sy'n rhan o'r weledigaeth/cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael effaith ar y maes hwn a fydd yn destun ei Asesiad Effaith Integredig ei hun i gefnogi hyn.<br><br>Cwricwlwm i Gymru - Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad statudol yn y cwricwlwm newydd. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel yn chwarae rôl bwysig o ran helpu dysgwyr i adnabod cydberthnasoedd iach a diogel a meithrin dealltwriaeth, a datblygu parch at wahaniaethau rhwng pobl. Bydd yn galluogi dysgwyr i reoli risgiau, mynegi syniadau ac emosiynau, datblygu a chynnal cydberthnasoedd iach, ac ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau gwahanol. Gall dysgu a phrofiad yn y Maes hwn helpu dysgwyr i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddod yn unigolion iach a hyderus. Mae hyn hefyd yn cynnwys dysgu am rywedd a stereoteipiau niweidiol a sut i drin pawb gyda pharch a charedigrwydd. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Cadarnhaol. Rydym am i aelodau ein gweithlu ffynnu, cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal a chael eu parchu gan bawb.<br><br>Rydym hefyd am helpu rhieni, ni waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol, i gael gafael ar ddarpariaeth. | Rydym am ddenu'r bobl gywir i'r sector gofal plant, gwaith chwarae ac addysg sy'n meddu ar y sgiliau a'r ymddygiadau i gynnig cyfleoedd chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel i fabanod a phlant bach. Mae angen inni sicrhau bod y gweithlu yn gallu manteisio ar gyfleoedd i gael hyfforddiant ac ennill cymwysterau sy'n seiliedig ar arferion a safonau effeithiol. Mae angen hyfforddiant arnom sy'n helpu'r gweithlu i ddeall yn llawn sut mae babanod a phlant bach yn dysgu ac yn datblygu, ac rydym am gefnogi'r gweithlu presennol i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd ac i achub ar fwy o gyfleoedd | Bydd y rhaglenni a'r polisïau sy'n rhan o'r weledigaeth/cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael effaith ar y maes hwn a fydd yn destun ei Asesiad Effaith Integredig ei hun i gefnogi hyn.<br><br>Cwricwlwm i Gymru<br><br>Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc dyfu i fyny yn iach, yn ddiogel ac yn hapus. Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ychwanegu at ffocws y cwricwlwm newydd ar iechyd a llesiant, ac un o ddibenion y cwricwlwm newydd yw bod pob person ifanc yn gadael addysg fel “unigolion iach a hyderus”. Mae hyn yn cynnwys gallu datblygu cydberthnasoedd sy'n seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a chyd-barch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyflogaeth, ni waeth beth fo'u cefndir. | Mae cynhwysiant yn un o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'n gweledigaeth ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd dysgwyr hefyd yn meithrin dealltwriaeth lawer ehangach o rywioldeb sy'n hollol gynhwysol o ddysgwyr LHDTC+ ac sy'n cynnwys materion ehangach megis cydsyniad, cam-drin domestig a pharchu amrywiaeth. Mae hyn yn gynhwysol er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gweld ei hun ac yn gweld eraill ym mhopeth y mae'n ei ddysgu am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Cadarnhaol. Rydym am i aelodau ein gweithlu ffynnu, cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal a chael eu parchu gan bawb.<br><br>Rydym hefyd am helpu rhieni i gael gafael ar ddarpariaeth Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar. | Rydym am ddenu'r bobl gywir i'r sector gofal plant, gwaith chwarae ac addysg sy'n meddu ar y sgiliau a'r ymddygiadau i gynnig cyfleoedd chwarae, dysgu a gofal o ansawdd uchel i fabanod a phlant bach. Mae angen inni sicrhau bod y gweithlu yn gallu manteisio ar gyfleoedd i gael hyfforddiant ac ennill cymwysterau sy'n | Bydd y rhaglenni a'r polisïau sy'n rhan o'r weledigaeth/cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cael effaith ar y maes hwn a fydd yn destun ei Asesiad Effaith Integredig ei hun i gefnogi hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | seiliedig ar arferion a safonau effeithiol. Mae angen hyfforddiant arnom sy'n helpu'r gweithlu i ddeall yn llawn sut mae babanod a phlant bach yn dysgu ac yn datblygu, ac rydym am gefnogi'r gweithlu presennol i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gamu ymlaen yn eu gyrfaoedd ac i achub ar fwy o gyfleoedd cyflogaeth. | |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Cadarnhaol - yn helpu babanod a phlant bach i gymdeithasu â phlant eraill ac oedolion, cael hwyl, bod yn greadigol a mwynhau dysgu pethau newydd. Gall hefyd helpu i nodi anghenion yn gynnar, ymyrryd yn gynnar a chefnogi cyfnodau pontio cadarnhaol i fyd addysg a chynnydd | Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gefnogi pob baban a phlentyn o 0-5 oed i gael darpariaeth o ansawdd uchel mewn unrhyw leoliad addysg a gofal a fynychir. Dylai gyfoethogi eu plentyndod a'u helpu nawr ac yn y dyfodol. | Mae'r adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn canolbwyntio ar sut beth fyddai darpariaeth o ansawdd da i helpu pob baban a phlentyn bach 0-5 oed i dyfu, datblygu a dysgu. Mae hyn yn adlewyrchu ethos y Cwricwlwm i Gymru. |
| Cartrefi incwm isel | Cadarnhaol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar gefnogi pob baban a phlentyn o 0-5 oed yn ogystal â'u rhieni/gofalwyr i gael darpariaeth o ansawdd uchel mewn | Mae darpariaeth yn gynhwysol i gefnogi pob plentyn, ni waeth beth fo'i gefndir. Dechrau'n Deg yw prif raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru. Mae'n parhau i wneud gwahaniaeth | Gwyddom o dystiolaeth gwerthusiadau annibynnol bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau teuluoedd a'i bod wedi newid bywyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | unrhyw leoliad addysg a gofal a fynychir, ni waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol. Mae hefyd yn darparu ac yn cydnabod y cymorth ychwanegol wedi'i dargedu (ar sail amddifadedd economaidd-gymdeithasol unigolion a lleoedd) i gefnogi darpariaeth a chanlyniadau teg. | gwirioneddol i fywydau plant mewn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig ac mae Llywodraeth Cymru wedi ailddatgan ei hymrwymiad i barhau i gefnogi'r rhaglen drwy gydol y tymor hwn mewn grym. Yn unol â'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, rydym wedi ymestyn yr ymrwymiad hwn i fynd ati'n raddol i ehangu’r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg. | rhai teuluoedd ag angen mawr.<br><br>Mae'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar yn rhoi cyllid ar gyfer lleoliadau a gynhelir/nas cynhelir i roi cymorth penodol i blant o aelwydydd incwm isel, yn ogystal â'r rhai yng ngofal yr awdurdod lleol, er mwyn iddynt gyflawni ar yr un lefel â chyfoedion gwell eu byd.<br><br>Mae canllawiau i ysgolion/lleoliadau ar ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant 5-15 oed o aelwydydd incwm isel yn tynnu sylw at y rôl hollbwysig sydd gan Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i'w chwarae o ran mynd i'r afael ag effaith tlodi ar ddatblygiad plant, gan gynnwys cyrhaeddiad, ar gam cynnar.<br><br>Caiff lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd ac ymarferwyr eu cyfeirio at ganllawiau presennol Llywodraeth Cymru Grant Datblygu Disgyblion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Blynyddoedd Cynnar: Canllawiau a Phecyn Blynyddoedd Cynnar y Sefydliad Gwaddol Addysgol |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**

A fydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl yn eich barn chi? *(Cyfeiriwch at bwynt 1.4 yng Nghanllawiau'r Asesiad Effaith Integredig i gael rhagor o wybodaeth am Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig).*

| **Hawliau Dynol** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?** |
|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | Cadarnhaol | Mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar y plentyn, gan roi lle blaenllaw i ddatblygiad plant a hawliau plant. | Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu gweithlu gofal plant, gwaith chwarae ac addysg feithrin amrywiol lle mae'r aelodau yn ffynnu, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cael eu parchu gan bawb, ac sy'n ymrwymedig i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel. |
| Confensiynau ar Hawliau'r Plentyn | Cadarnhaol | Mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar y plentyn, gan roi lle blaenllaw i ddatblygiad plant. | Byddwn yn annog pawb sy'n gweithio yn y sector i chwarae rhan a: meithrin dealltwriaeth ddyfnach o ddatblygiad plant a phwysigrwydd chwarae; casglu barn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | drwy ein hymgyngoriadau a'n cynigion ymchwil; manteisio ar y cyfleoedd hyfforddi a ddarperir i uwchsgilio, meithrin sgiliau newydd a chwblhau cyrsiau gloywi.<br><br>Byddwn yn parhau i gydlunio a chyd-ddatblygu ein polisïau a'n hadnoddau ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol. |

Mae cyswllt anorfod rhwng cydraddoldeb a gwahaniaethu a hawliau dynol. Gall anfantais economaidd-gymdeithasol amharu ar allu rhywun i arfer a mwynhau'r hawliau dynol sydd ar gael iddynt yn y DU drwy gyfuniad o gyfraith ddomestig **Deddf Hawliau Dynol 1998**, cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith hawliau dynol ryngwladol. Gall anfantais o'r fath arwain at anghydraddoldebau hirdymor mewn addysg, iechyd, boddhad â bywyd, ffyniant a chyfranogiad mewn bywyd cyhoeddus.

Drwy fynd ati i roi'r Ddyletswydd Economaid-Gymdeithasol ar waith yn y ffordd gywir bydd hynny'n helpu cyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i ymdrin ag anghydraddoldebau o'r fath, a hefyd i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan **Ddeddf Hawliau Dynol 1998** a chyfraith hawliau dynol ryngwladol, gan gynnwys y **Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn**. Cyfrifoldeb y cyrff cyhoeddus fydd deall lle y gallant gael yr effaith fwyaf, ond bydd yn ofynnol i'r cyrff hynny a gwmpesir gan y Ddyletswydd roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol drwy'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud. Byddai disgwyl i lawer o'r penderfyniadau hyn effeithio ar blant a phobl ifanc.

Mae'n anghyfreithlon i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithredu'n groes i'r **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**. Mae rhwymedigaethau ar gyrff cyhoeddus fel rhan o'r wladwriaeth hefyd i ystyried cytuniadau rhyngwladol ar hawliau dynol a lofnodir ac a gadarnheir gan y DU, cydymffurfio â nhw a'u rhoi ar waith. At ei gilydd, mae saith offeryn hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi cael eu cadarnhau gan y DU, y mae pob un ohonynt yn berthnasol o safbwynt economaidd-gymdeithasol.

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

Mae Rhan 2 o Gytundeb Ymadael y DU â’r UE, ynghyd â'r Cytundeb Gwahanu â Gwladwriaethau’r AEE-EFTA a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir (“Cytundebau Hawliau Dinasyddion”) yn rhoi sicrwydd i ddinasyddion yr UE, yr AEE[20] a'r Swistir a oedd yn preswylio'n gyfreithlon yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 y caiff eu hawliau fel dinasyddion eu gwarchod.

Mae'r Cytundebau Hawliau Dinasyddion yn cael eu gweithredu mewn cyfraith ddomestig drwy Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020. [21]

Bydd gan unigolion cymwys sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yr un hawliau o hyd i weithio, astudio a defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a hawlio budd-daliadau yn fras, i'r graddau y mae'r hawliau hyn yn deillio o aelodaeth y DU o'r UE, yn ogystal â'i chyfranogiad yn y Cytundeb â'r AEE a Chytundeb Rhyddid Pobl i Symud yr UE/y Swistir.

Yn amodol ar rai eithriadau cyfyngedig[22], bydd angen i unigolion fod wedi gwneud cais am statws preswyl newydd (naill ai statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog) drwy'r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Daeth y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o'r fath i ben ar 30 Mehefin 2021.

Ystyriaethau polisi i'w hystyried:

- A ydych wedi ystyried a fydd eich cynnig polisi yn effeithio ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir y mae eu hawliau wedi'u diogelu gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion?
- Os oes potensial ar gyfer unrhyw effaith negyddol ar ddinasyddion yr UE, yr AEE neu'r Swistir, sut y caiff unrhyw effeithiau o'r fath eu dileu neu eu rheoli os tybir bod rheoli yn briodol?
- A oes angen cyngor cyfreithiol?

Ystyriwch effeithiau eich polisi ar y meysydd isod, gan nodi a yw'r effaith yn gadarnhaol neu'n negyddol ac unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd i ddileu effaith negyddol bosibl. Nodwch y sail dros eich ateb, gan gynnwys os yw cyngor cyfreithiol wedi cael ei geisio a nodwch hefyd pan na fo hawl yn berthnasol i'ch polisi:

**Preswyliaeth** – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswyliaeth: hawliau gadael a dod i mewn, ceisiadau am breswyliaeth, cyfyngiadau ar hawliau i ddod i mewn a phreswyliaeth;

[20] Mae'r AEE yn cynnwys gwledydd yr UE ynghyd â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

[21] Adrannau 5 a 6 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael).

[22] E.e. pan fydd gan unigolyn ddinasyddiaeth Wyddelig (gan gynnwys dinasyddiaeth deuol y DU ac Iwerddon) neu pan fydd wedi cael caniatâd am gyfnod amhenodol i ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU)

Ddim yn berthnasol i'r polisi

**Cydnabyddiaeth gilyddol cymwysterau proffesiynol** – parhad cydnabyddiaeth cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/AEE/Swistir yn eu gwledydd (ac sydd eisoes yn cael eu cydnabod yn y DU);

Nid yw'r gweithlu gofal plant a chwarae yn dod o dan y Ddeddf Cydnabyddiaeth Cymwysterau Proffesiynol. Fodd bynnag, o dan gynllun y gweithlu ar ei newydd wedd, mae'n rhaid i unrhyw un a hoffai weithio ym maes gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru ddal cymhwyster a restrir ar fframwaith cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.

Os nad yw eu cymhwyster ar y rhestr, bydd angen i Gofal Cymdeithasol Cymru asesu a ellir ei dderbyn. Mae'n gwneud hynny drwy fapio cymhwyster yr unigolyn yn erbyn y cymhwyster cyfatebol yng Nghymru.

Ar ddiwedd y broses, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynghori a yw cymhwyster yr unigolyn yn dderbyniol. Pan na fydd yn hollol gyfwerth, gall Gofal Cymdeithasol Cymru helpu i ddatblygu cynllun gweithredu fel y gall yr unigolyn gael ei gyflogi fel aelod cymwysedig o staff. Pan fydd mwy o ddiffyg o ran cyfwerthedd, gall Gofal Cymdeithasol Cymru benderfynu na all y person gael ei gyflogi fel aelod cymwysedig o staff heb ymgymryd â'r cymhwyster Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yma: Cymwysterau blynyddoedd cynnar a gofal plant rhyngwladol | Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dylid anfon unrhyw gwestiynau penodol am gymwysterau rhyngwladol neu'r broses hon i: InternationallyQualified@socialcare.wales.

Mae athrawon ysgol yng Nghymru yn rhan o broffesiwn rheoleiddiedig ac yn dod o dan y Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol. Gall athrawon ysgol rhyngwladol, gan gynnwys athrawon o'r UE/AEE/Swistir wneud cais i Gyngor y Gweithlu Addysg am i'w cymwysterau gael eu cydnabod ac yna i gofrestru os byddant yn bodloni'r gofynion. Ceir rhagor o wybodaeth yn https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/cofrestru/ymarferwyr-sydd-wedi-hyfforddi-tu-allan-i-gymru

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, mynediad at addysg, tai a mynediad at ofal iechyd.

Ddim yn berthnasol i'r polisi

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cynnwys dim gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

Fel y crybwyllir uchod, mae ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi ein huchelgais i sicrhau gweithlu sydd wedi'i gefnogi, a lle mae'r aelodau yn ffynnu, yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal ac yn cael eu

parchu gan bawb. Mae'r Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn canolbwyntio ar gefnogi pob baban a phlentyn 0-5 oed, a'u teuluoedd.

**Hawliau gweithwyr** – gwarentir y bydd gan weithwyr ac unigolion hunangyflogedig a gwmpesir gan y Cytundebau Hawliau Dinasyddion yr un hawliau yn fras ag yr oeddent yn eu mwynhau pan oedd y DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn o ganlyniad i'w cenedligrwydd, a'r hawl i driniaeth gyfartal â gwladolion y DU.

(Gall gweithwyr trawsffiniol (y dinasyddion hynny sy'n preswylio mewn un wladwriaeth ac yn gweithio'n rheolaidd mewn un arall) barhau i weithio yn y DU os oeddent yn gwneud hynny erbyn 31 Rhagfyr 2020).

Ddim yn berthnasol i'r polisi ond mae ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi ein huchelgais ar gyfer gweithlu sydd wedi'i gefnogi lle mae'r aelodau yn ffynnu, yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal ac yn cael eu parchu gan bawb.


## ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu Symud Cymru Ymlaen ac yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema rhyng-gysylltiedig i strategaeth Cymraeg 2050:




Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):

2. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050, Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026?

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru, a nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd yn cynyddu. Mae'r strategaeth hon a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn datgan bod yr iaith Gymraeg yn flaenoriaeth strategol i Lywodraeth Cymru. Mae Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg ymdrochi, ac i gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Fel rhan o'n gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru, rydym am i fabanod a phlant bach a'u rhieni/gofalwyr ddarganfod manteision dwyieithrwydd neu amlieithrwydd.  Bydd hyrwyddo datblygiad iaith cynnar yn y Gymraeg yn cyfrannu at y strategaeth: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.  Mae codi ymwybyddiaeth rhieni o ddatblygiad iaith cynnar plentyn a manteision magu plant yn ddwyieithog yn cefnogi Strategaeth y Gymraeg.

Mae helpu babanod a phlant bach i fanteisio ar ddarpariaeth gofal plant ac addysg feithrin cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog yn hanfodol er mwyn helpu i gynyddu'r niferoedd sy'n symud ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg. Gall hefyd helpu i drosglwyddo'r Gymraeg i'r cartref. Bydd ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn helpu i gefnogi hyn, drwy helpu lleoliadau cyfrwng Cymraeg i ddod yn ddarparwyr Dechrau'n Deg, yn ogystal ag annog lleoliadau Dechrau'n Deg presennol i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

Rydym am sicrhau bod digon o gyfleoedd gofal plant a chwarae cyfrwng Cymraeg ar gael, gan gynnwys ar ôl yr ysgol ac yn ystod y gwyliau, er mwyn galluogi teuluoedd i gael y ddarpariaeth y maent am ei chael. Fel rhan o broses Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y galw am ofal pant cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth sydd ar gael, gan ddadansoddi unrhyw fylchau a mynd i'r afael â nhw. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau y caiff yr asesiadau hyn eu cysylltu'n glir â'u cynlluniau ar gyfer twf a pharhad mewn addysg cyfrwng Cymraeg fel y'u nodir yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn cefnogi ein hymrwymiad parhaus i ddatblygu gweithlu gofal plant, gwaith chwarae ac addysg dwyieithog, cynhwysol ac amrywiol ymhellach. Bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg o ansawdd da yn rhoi mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu, dysgu, cymdeithasu a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cyfrannu at ein targedau Cymraeg 2050.

Mae meithrin sgiliau lleferydd, iaith, cyfathrebu a darllen plant yn arbennig o allweddol ar gyfer ein plant ieuengaf, pan gaiff sylfeini datblygiad iaith cynnar eu gosod drwy feithrin eu sgiliau talu sylw, gwrando a deall. Bydd ein gweledigaeth ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn parhau i helpu teuluoedd i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol, cymdeithasol ac addysgol plant, er enghraifft drwy'r sesiynau am ddim a gaiff eu cynnig gan raglen Cymraeg i Blant. Byddwn hefyd yn creu mentrau newydd, gan adeiladu ar y gwaith rydym eisoes wedi'i wneud er mwyn helpu teuluoedd i drosglwyddo a defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio'r technegau diweddaraf i newid ymddygiad.  Bydd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn parhau i hyrwyddo manteision darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i deuluoedd di-Gymraeg o bob cefndir.

3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith[25] (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oedran, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?
- Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaethau[26] sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. gwasanaethau

iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati.)

- Sut y byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn gallu cael gafael arnynt a'u defnyddio mor hwylus â'r gwasanaethau Saesneg cyfatebol? Pa dystiolaeth / data a ddefnyddiwyd gennych i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau buddiant Cymraeg?
- Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu chi i gynnal gwell asesiad?
- Sut y byddwch chi'n gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Gall ymdeimlad cryf o berthyn helpu i greu teimladau cadarnhaol o gysylltiad rhwng babanod a phlant bach a'u cartref, yn ogystal â'u hysgol neu leoliad, a gellir ymestyn hynny hefyd i'w cymuned ac i Gymru a'r byd ehangach. Gall ysgolion a lleoliadau sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu profiadau'r gorffennol a'r presennol, o gartref y plentyn a'r gymuned, ac sy'n adeiladu ar y profiadau hynny, atgyfnerthu ymdeimlad o berthyn. Dylai ysgolion a lleoliadau sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd, a dangos gofal gwirioneddol a rhoi cymorth emosiynol.

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ac ymrwymiadau'r Cytundeb Cydweithio mewn perthynas ag ehangu darpariaeth gofal plant i bob plentyn 2 oed yng Nghymru yn cefnogi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i gefnogi babanod a phlant bach, eu teuluoedd a'r gweithlu drwy gynnig cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi cynlluniau strategol Cymraeg mewn Addysg a'u rhoi ar waith er mwyn cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd. Er mwyn cefnogi'r broses gynllunio, mae pob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys saith deilliant ac mae'r deilliant cyntaf yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant meithrin/3 oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pob awdurdod lleol wedi cytuno ar darged cynnydd penodol yn ystod oes 10 mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Yn 2017, gosododd Cymraeg 2050 darged i ehangu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg i 150 yn rhagor o grwpiau meithrin dros 10 mlynedd fel pwynt

mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Mudiad Meithrin i arwain ar y broses ehangu hon drwy raglen Sefydlu a Symud (SAS). Cyrhaeddwyd y targed cychwynnol o sefydlu 40 o grwpiau newydd erbyn 2021, ac mae gwaith ar y targed presennol i sefydlu 60 yn rhagor o ddarpariaethau newydd yn ystod tymor presennol y Senedd yn mynd rhagddo ers tro, a'r arwyddion cynnar yw yr eir y tu hwnt i'r targed.  Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yw un o nodau allweddol ein strategaeth ar gyfer y Gymraeg, sef Cymraeg 2050. Tynnir sylw at bwysigrwydd strategaeth y Gymraeg ymhellach gan mai nod hirdymor Llywodraeth Cymru “ar gyfer ein darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar yw cyrraedd sefyllfa lle mae plant dan bump oed wedi cael digon o gyswllt â’r Gymraeg i allu dechrau ar eu taith i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl”. Rydym hefyd yn ariannu'r consortiwm gofal plant Cwlwm i gynnal gweithgareddau er mwyn helpu i ehangu darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, rydym wedi darparu cyllid ar gyfer Croesi'r Bont, sy'n cynnig cymorth iaith i leoliadau cyfrwng Cymraeg newydd a lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n awyddus i gyflwyno neu wella darpariaeth Gymraeg.

Mae mynediad at ofal plant a chwarae cyfrwng Cymraeg yn rhoi cyfle i blant gymdeithasu a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg (i rai plant, ni fydd wedi bod yn bosibl iddynt ddod i gysylltiad â'r Gymraeg yn ystod y cyfyngiadau symud). Bydd cymorth i leoliadau cyfrwng Cymraeg hefyd yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg gan fod plant sy'n cael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy tebygol o symud ymlaen i ysgolion cyfrwng Cymraeg na'r rhai sy'n cael darpariaeth cyfrwng Saesneg. Hefyd, bydd atgyfnerthu lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn golygu y bydd lleoliadau mewn sefyllfa i allu cynnig gwasanaeth i deuluoedd Cymraeg neu i deuluoedd lle mae awydd i'r plant fod yn ddwyieithog, hyd yn oed os nad yw'r rhieni'n ddwyieithog. Mewn sefyllfaoedd lle mae hyn yn digwydd, gall plant barhau â'u bywydau a'u gweithgareddau beunyddiol gan siarad eu hiaith gyntaf (yn achos teuluoedd Cymraeg) neu bydd plant o aelwydydd di-Gymraeg yn cael budd ychwanegol drwy gael gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, gan eu helpu i ddysgu a datblygu ymhellach a chael mwy o ddewisiadau cyflogaeth yn y dyfodol.

Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod recriwtio a chadw siaradwyr Cymraeg i weithio gyda phlant yn y sector gofal plant, gwaith chwarae ac addysg gynnar yn her barhaus. Mae'r sector gofal plant a chwarae yn ei gyfanrwydd yn wynebu problemau recriwtio a chadw, sy'n waeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg o ystyried y gronfa lai o bobl sydd â sgiliau iaith Cymraeg y gellid eu recriwtio.  Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gefnogi darpariaeth gofal plant estynedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn buddsoddi yn y canlynol:

- cymwysterau gofal plant cyfrwng Cymraeg ar Lefel 3 a Lefel 5 ar gyfer staff.
- mwy o glybiau chwarae a chlybiau ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg i hyfforddi ar gyfer cymwysterau gwaith chwarae.
- lleoliadau drwy Croesi'r Bont sy'n cynnig cymorth trochi iaith i leoliadau newydd.

Bydd y camau hyn, ynghyd â buddsoddi mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg penodol newydd drwy ein Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar a rhaglenni megis Sefydlu a Symud, yn ein galluogi i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i'r gweithlu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, ac yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu presennol i wella eu sgiliau iaith; a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu.

Mae adolygu a diweddaru'r cynllun 10 mlynedd ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru nodi'n glir ein hymrwymiad i'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae a datblygu gweithlu dwyieithog. Bydd yn tynnu sylw at y camau gweithredu sydd wedi cael eu cymryd hyd yma er mwyn cyflawni'r nod hwn a'r rhai a fydd yn parhau fel rhan o'r weledigaeth 10 mlynedd.

Bydd yr adolygiad a'r diweddariad yn dangos sut rydym yn helpu i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac yn cydnabod heriau megis recriwtio a chadw siaradwyr Cymraeg. Mae Busnes Cymru hefyd yn rhoi cymorth a chyngor busnes i'r sector gofal plant a chwarae. Mae Busnes Cymru wedi

datblygu cyfres o sesiynau arbenigol sector-benodol a phecyn adnoddau sy'n cynnwys y defnydd o'r Gymraeg.

Mae Cynllun 10 mlynedd y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau a rhanddeiliaid i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg fel pwnc, neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu addysg a sicrhau bod gan ein harweinwyr y wybodaeth a'r sgiliau i gynllunio'n strategol a meithrin y Gymraeg yn ein hysgolion.
Rydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ar gynigion a fydd yn sail ar gyfer Bil Addysg Gymraeg. Y bwriad yw cyflwyno'r Bill yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol hon (2024). Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi pob disgybl yng Nghymru i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol.

Rydym wedi cyhoeddi ein polisi er mwyn helpu'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg i wneud hynny gyda'u plant a galluogi'r teuluoedd hynny sydd eisoes â'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg – er efallai na fyddant wedi'i defnyddio ers cryn amser – i ddefnyddio pa Gymraeg bynnag sydd ganddynt gyda'u plant.